citb Cymru Wales

Mewn cydweithrediad ag

Experian

# CIPOLWG AR Y DIWYDIANT

## Rhagolygon y Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu 2016–2020

## Cymru 2016–2020

Ar gais y Llywodraeth, mae CITB yn sicrhau bod gan ddiwydiant adeiladu'r DU y gweithlu medrus sydd ei angen arno. Gan weithio gyda'r Llywodraeth, darparwyr hyfforddiant a chyflogwyr, mae'n gyfrifol am sicrhau bod gan y diwydiant ddigon o newydd-ddyfodiaid cymwysedig a bod y gweithlu presennol yn gwbl fedrus a chymwysedig, yn ogystal â gwella perfformiad y diwydiant a'r cwmnïau ynddo. Mae'r deunyddiau hyn, ynghyd â'r holl hawliau eiddo deallusol ynddynt, yn eiddo i Fwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB). Hawlfraint 2005 ("CITB") ac ni ddylid eu copïo, eu hatgynhyrchu na'u trosglwyddo i drydydd parti heb ganiatâd ysgrifenedig CITB ymlaen llaw. Llunnir y deunyddiau hyn gan ddefnyddio data a gwybodaeth a roddwyd i CITB a/neu EXPERIAN Limited ("Experian") gan drydydd partïon na all EXPERIAN na CITB eu rheoli na'u dilysu o ran cywirdeb. Yn yr un modd, nid yw EXPERIAN na CITB yn rhoi unrhyw sicrwydd ynghylch cywirdeb nac addasrwydd y deunyddiau hyn at unrhyw ddiben penodol. At hynny, nid yw'r deunyddiau hyn yn gyfystyr â chyngor ac ni ddylid eu defnyddio fel yr unig sail i benderfyniadau busnes ac, fel y cyfryw, ni fydd EXPERIAN na CITB yn atebol am unrhyw benderfyniadau a wneir ar sail yr un peth. Rydych yn cydnabod na all deunyddiau sy'n defnyddio data empiraidd a/neu ddata ystadegol a/neu dechnegau modelu a/neu ragamcanu data er mwyn darparu data dangosol a/neu ragfynegol roi sicrwydd o unrhyw ganlyniad penodol.

# CYNNWYS

1 CRYNODEB A CHANFYDDIADAU ALLWEDDOL ..... 4
2 Y RHAGOLWG AR GYFER Y DIWYDIANT ADEILADU YNG NGHYMRU ..... 6
3 RHAGOLYGON CYFLOGAETH AR GYFER Y DIWYDIANT ADEILADU YNG NGHYMRU ..... 4
4 CYMARIAETHAU LEDLED Y DU ..... 18

## TABLAU A SIARTIAU

1 TWF ALLBWN ADEILADU CYFARTALOG BLYNYDDOL 2016-2020 ..... 5
2 CYMHARIAETH RANBARTHOL 2016-2020 ..... 5
3 ALLBWN ADEILADU 1998-2014 ..... 7
4 STRWYTHUR Y DIWYDIANT ADEILADU 2014 ..... 7
5 STRWYTHUR ECONOMAIDD ..... 7
6 DANGOSYDDION ECONOMAIDD ..... 9
7 TWF MEWN ARCHEBION AR GYFER GWAITH ADEILADU NEWYDD 1998-2014 ..... 9
8 ARCHEBION AR GYFER GWAITH ADEILADU NEWYDD ..... 9
9 ALLBWN ADEILADU 2016-2017 ..... 11
10 TWF ALLBWN ADEILADU CYFARTALOG BLYNYDDOL 2016-2017 ..... 11
11 ALLBWN ADEILADU 2016-2020 ..... 13
12 TWF ALLBWN ADEILADU CYFARTALOG BLYNYDDOL 2016-2020 ..... 13
13 CYFANSWM CYFLOGAETH YN ÔL GALWEDIGAETH ..... 15
14 GOFYNIAD RECRIWTIO BLYNYDDOL YN ÔL GALWEDIGAETH ..... 17
15 TWF ALLBWN CYFARTALOG BLYNYDDOL YN ÔL RHANBARTH ..... 19
16 GOFYNIAD RECRIWTIO BLYNYDDOL YN ÔL RHANBARTH ..... 19

## ESBONIO CSN

1 METHODOLEG CSN ..... 21
2 RHESTR TERMAU ..... 23
3 NODIADAU AC OLION TRAED ..... 24
4 DIFFINIADAU: MATHAU AC ENGHREIFFTIAU O WAITH ADEILADU ..... 26
5 GRWPIAU GALWEDIGAETHOL ..... 28
6 GWEFAN A MANYLION CYSWLLT CSN ..... 31

ADRAN 1

# CRYNODEB – CYMRU

7.1%

Rhagamcenir y bydd twf allbwn cyfartalog blynyddol o 7.1% yng Nghymru rhwng 2016 a 2020, sy'n fwy na'r 5.8% a ragwelwyd y llynedd ar gyfer 2015 i 2019 gan fod mwy o brosiect Wylfa wedi'i gynnwys erbyn hyn. Mae hyn bron i dair gwaith yn fwy na chyfradd y DU, sef 2.5%. Mae Wylfa'n golygu bod y fath ehangu a welir yn canolbwyntio ar y sector gwaith adeiladu newydd, gyda chynnydd blynyddol cyfartalog mewn allbwn o 9.5% o gymharu â 2.2% ar gyfer gwaith atgyweirio a chynnal a chadw. Disgwylir i'r twf hwn mewn allbwn lywio twf cryf mewn cyflogaeth, sef 2.9% y flwyddyn ar gyfartaledd, sydd, unwaith eto, ymhell uwchlaw cyfartaledd y DU, sef 1.1%. Disgwylir i ofyniad recriwtio cyfartalog (ARR) blynyddol Cymru fod yn 5,440, sef 4.7% o gyflogaeth sylfaen 2016.

### Canfyddiadau Allweddol

Ers ei isafbwynt yn 2012, cafwyd twf o fwy na 10% mewn termau real yn allbwn adeiladu Cymru erbyn 2014, a disgwylir iddo fod wedi ehangu ymhellach y llynedd. Mae'n debygol y cafodd y twf yn ystod 2015 ei lywio gan berfformiad cryf iawn yn y sector seilwaith ac ehangu ar raddfa lai, ond yn gadarn o hyd, mewn gwaith yn y sector tai preifat a'r sector cyhoeddus nad yw'n ymwneud â thai.

Rhagamcenir y bydd twf allbwn cyfartalog blynyddol o 7.1% yng Nghymru dros y pum mlynedd hyd at 2020, cryfach nag unrhyw ranbarth yn Lloegr a'r gwledydd datganoledig eraill ac er bod adeiladu gorsaf ynni niwclear newydd yn Wylfa yn cyfrannu'n sylweddol at yr ehangu hwn, nid hyn yw'r unig sbardun o bell ffordd.

Heblaw adeiladu gorsaf niwclear newydd, mae prosiectau eraill sy'n eithaf sylweddol wrthi'n mynd rhagddynt neu yn yr arfaeth ym maes ynni, megis cyfleuster adfer ynni Wheelabrator yng Nglannau Dyfrdwy a gorsaf fiomas gwerth £800m a gynigir ar gyfer Ynys Môn, y mae'n debygol y bydd gwaith yn dechrau arni yn 2018. Rhaid hefyd ystyried prosiect Morlyn Llanw Abertawe, y dylai gwaith ddechrau arno yn 2017.


Mewn mannau eraill o'r sector seilwaith, y prosiect mwyaf yn yr arfaeth yw uwchraddio'r M4 ger Casnewydd, ac mae'n debygol y bydd y gwaith hwnnw'n dechrau yn 2018.

Mae nifer o gynlluniau adfywio sylweddol yn yr arfaeth, a bydd y sector adeiladu tai preifat yn rhan allweddol ohonynt. Fodd bynnag, prosiectau hirdymor yw'r rhain, ac felly gallai eu cyfraniad at dwf blynyddol fod yn weddol fach. Mae'r un peth yn wir, ond i raddau llai, am y sector masnachol preifat, ond mae'n debygol y bydd amserlen adeiladu'r cynlluniau yn y sector hwn yn fwy cywasgedig, gan arwain at broffil twf cryfach.

Rhagamcenir y bydd twf mewn cyflogaeth yn 2.9% y flwyddyn ar gyfartaledd rhwng 2016 a 2020, sydd gryn dipyn yn uwch na chyfartaledd y DU a disgwylir i'r gweithlu gyrraedd 129,900 erbyn 2020, sef 5% yn fwy na'i anterth yn 2008. Disgwylir mai'r galw cryfaf fydd y galw am weithwyr adeiladu proffesiynol – peirianwyr sifil, penseiri, syrfewyr a gweithwyr adeiladu proffesiynol eraill – gyda phob un ohonynt yn debygol o weld twf cyflogaeth gyfartalog flynyddol o tua 4% y flwyddyn neu fwy.

Rhagamcenir y bydd gofyniad recriwtio blynyddol (ARR) Cymru yn 5,440 y flwyddyn ar gyfartaledd, y trydydd mwyaf ar lefel absoliwt o hyd, a'r uchaf fel cymhareb o gyflogaeth sylfaen 2016. Mae ei gymhareb, sef 4.7%, gryn dipyn yn uwch na chyfartaledd y DU sef 1.7%. Yn draddodiadol, mae Cymru yn dioddef all-lifau net uchel o'i gweithlu adeiladu i rannau eraill o'r DU, yn enwedig De-orllewin Lloegr a Gogledd-orllewin Lloegr.

## TWF ALLBWN ADEILADU CYFARTALOG BLYNYDDOL 2016-2020 – CYMRU




*Ffynhonnell: CSN, Experian. Cyf: Esbonio CSN, Adran 3, Nodyn 2*

## CYMHARIAETH RANBARTHOL 2016-2020

| | Newid canrannol cyfartalog blynyddol mewn allbwn | Newid mewn cyfanswm cyflogaeth | Cyfanswm ARR |
|---|---|---|---|
| Gogledd-ddwyrain Lloegr | 1.5% | 3,260 | 3,160 |
| Swydd Efrog a Humber | 2.4% | 8,360 | 3,230 |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 1.0% | 1,210 | 3,110 |
| Dwyrain Lloegr | 2.3% | 13,950 | 3,910 |
| Llundain Fwyaf | 3.5% | 42,670 | 3,650 |
| De-ddwyrain Lloegr | 0.9% | 2,110 | 1,730 |
| De-orllewin Lloegr | 4.4% | 25,850 | 6,480 |
| Cymru | 7.1% | 17,490 | 5,440 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 1.7% | 10,200 | 3,030 |
| Gogledd Iwerddon | 3.0% | 4,660 | 1,760 |
| Gogledd-orllewin Lloegr | 2.6% | 22,430 | 6,650 |
| Yr Alban | 0.5% | -7,360 | 4,270 |
| **Y DU** | **2.5%** | **144,830** | **46,420** |

*Ffynhonnell: CSN, Experian. Cyf: Esbonio CSN, Adran 3, Nodyn 2*

> Rhagamcenir y bydd twf allbwn cyfartalog blynyddol o 7.1% yng Nghymru dros y bum mlynedd hyd at 2020, cryfach nag unrhyw ranbarth yn Lloegr a'r gwledydd datganoledig eraill.

ADRAN 2

# Y RHAGOLWG AR GYFER Y DIWYDIANT ADEILADU YNG NGHYMRU

### 2.1 Allbwn adeiladu yng Nghymru – trosolwg

Cafwyd twf mewn allbwn adeiladu yng Nghymru am yr ail flwyddyn yn olynol yn 2014, sef cynnydd o 2% hyd at allbwn a amcangyfrifir o £4.5bn yn seiliedig ar brisiau 2012. Parhaodd y sector seilwaith a'r sector cyhoeddus nad yw'n ymwneud â thai i ehangu'n gryf, fel y gwnaethant yn 2013, ond prif sbardun y twf oedd cynnydd sydyn o bron i draean mewn gwaith atgyweirio a chynnal a chadw tai.

### 2.2 Strwythur y diwydiant

Mae'r diagram, Strwythur y Diwydiant Adeiladu 2014 – y DU yn erbyn Cymru, yn dangos dadansoddiad sector o'r diwydiant adeiladu yng Nghymru, o gymharu â'r DU. I bob diben, mae'r canrannau ar gyfer pob sector yn dangos pa gyfran o gyfanswm yr allbwn y mae pob sector yn cyfrif amdani.

Mae'r rhaniad rhwng gwaith adeiladu newydd a gwaith atgyweirio a chynnal a chadw yng Nghymru yn debyg i'r hyn a gafwyd yn y DU, gyda 62% i waith adeiladu newydd yn y ddwy wlad. Fodd bynnag, mae gwaith atgyweirio a chynnal a chadw tai yn bwysicach yn gymesur yng Nghymru na'r DU (23% o gymharu ag 19%) ac mae gwaith atgyweirio a chynnal a chadw nad yw'n ymwneud â thai yn llai pwysig yn gymesur (15% o gymharu ag 19%). O ran y sectorau gwaith newydd, mae'r sector cyhoeddus nad yw'n ymwneud â thai gryn dipyn yn bwysicach yng Nghymru nag yn y DU (15% o gymharu ag 8%), ond mae'r sectorau tai preifat a masnachol yn llai pwysig.

### 2.3 Trosolwg economaidd


Mae perfformiad disgwyliedig economi ranbarthol neu genedlaethol dros gyfnod y rhagolwg (2016–2020) yn rhoi syniad o'r sectorau adeiladu lle y mae'r galw mwyaf yn debygol o fod.

### 2.4 Strwythur economaidd


Mae twf economaidd cyffredinol yng Nghymru yn elwa o gyfraddau calonogol o ehangu ym meysydd trafnidiaeth a storio, gwasanaethau cwsmeriaid megis gwestai, bwyd a hamdden, gwasanaethau proffesiynol a gwasanaethau eraill, y mae eu cyfran o Werth Ychwanegol Crynswth (GYC) wedi codi o 18% yn 2000 i 21.7% y llynedd. Er ei fod yn gymharol fach o hyd, gan gyfrif am 3% yn unig o GYC, mae'r sector gwybodaeth a chyfathrebu hefyd yn gwneud cyfraniad cynyddol yn dilyn sawl blwyddyn o ddiffyg twf.

Fodd bynnag, un ffactor allweddol sy'n cyfrif am y bwlch rhwng y twf economaidd yng Nghymru ac yn y DU yn ei chyfanrwydd yw'r cyfraniad mawr a wneir gan wasanaethau cyhoeddus. Roedd y sector annynamig hwn yn cyfrif am 26% o GYC yn 2014, gostyngiad bach yn unig o'r lefel yn 2000, sef 27%. Gan fod y sector yn destun cyfyngiadau cyllidol parhaus, mae'n annhebygol y bydd yn gwella ar y twf blynyddol cyfartalog o 0.6% y flwyddyn a welwyd yn 2008-13. Yn hytrach, mae'n debygol y bydd y gwrthwyneb yn wir wrth i fesurau cynilo dynhau dros y blynyddoedd nesaf.

## ALLBWN ADEILADU 1998-2014 – CYMRU




*Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). Cyf: Esbonio CSN, Adran 3, Nodyn: 1*




## STRWYTHUR Y DIWYDIANT ADEILADU 2014 – Y DU YN ERBYN CYMRU

- Tai cyhoeddus
- Tai preifat
- Seilwaith
- Y sector cyhoeddus nad yw'n ymwneud â thai
- Diwydiannol
- Masnachol
- Atgyweirio a chynnal a chadw tai
- Gwaith atgyweirio a chynnal a chadw nad yw'n ymwneud â thai

*Ffynhonnell: SYG, Experian*

## STRWYTHUR ECONOMAIDD – CYMRU (£ BILIWN, PRISIAU 2012)

| Sectorau dethol | Gwirioneddol | Newid % blynyddol rhagamcanol, termau gwirioneddol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
| Gwasanaethau cyhoeddus | 13.5 | 0.3 | -0.1 | -0.4 | 0.3 | 1.1 | 2.0 |
| Gwasanaethau proffesiynol a gwasanaethau preifat eraill | 11.2 | 3.4 | 3.2 | 3.0 | 2.9 | 2.5 | 2.3 |
| Gweithgynhyrchu | 8.2 | 0.6 | 1.1 | 2.2 | 2.3 | 1.3 | 1.1 |
| Cyfanwerthu a manwerthu | 5.2 | 4.0 | 2.3 | 2.0 | 2.1 | 2.1 | 2.1 |
| Cyllid ac yswiriant | 2.5 | 0.1 | 2.7 | 2.8 | 2.3 | 2.1 | 2.0 |
| **Cyfanswm Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC)** | **51.7** | **2.0** | **1.8** | **1.9** | **2.0** | **1.9** | **2.0** |

*Sylwer: Pum prif sector, heb gynnwys y diwydiant adeiladu. Ffynhonnell: Experian. Cyf. Esbonio CSN, Adran 3, Nodyn 3*

## 2.5 Dangosyddion economaidd sy'n edrych i'r dyfodol

Cyfanswm GYC yng Nghymru yn 2014 oedd £51.7bn yn ôl prisiau 2012 ac amcangyfrifir twf o 2% y llynedd, un pwynt canran yn is na chyfradd y DU, a lywiwyd i raddau helaeth gan ehangu cryf yn y sectorau gwybodaeth a chyfathrebu (5.2%), cyfanwerthu a manwerthu (4%), llety, gwasanaethau bwyd a hamdden (3.7%) a gwasanaethau proffesiynol a gwasanaethau preifat eraill (3.4%).

Disgwylir i dwf economaidd Cymru barhau i fod yn arafach na chyfradd y DU, a hynny oddeutu hanner canran y flwyddyn yn arafach, ar gyfartaledd, dros y pum mlynedd hyd at 2020 (1.9% o gymharu â 2.4%). Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i'r ffaith bod y wlad ddatganoledig yn dibynnu mwy ar y gwasanaethau cyhoeddus a nodir uchod, sef sector a fydd yn ei chael yn anodd cofnodi twf o lawer mwy na hanner canran y flwyddyn yn y tymor canolig. Mae twf yng Nghymru yn debygol o gael ei gyfyngu ymhellach gan y sector gweithgynhyrchu, sydd hefyd yn bwysicach yng Nghymru na'r DU yn ei chyfanrwydd (15.9% o gymharu â 9.7% yn 2014). Rhagamcenir y bydd allbwn gweithgynhyrchu yn ehangu ar gyfradd flynyddol gyfartalog o 1.6% hyd at 2020, ond mae hyn yn is o lawer na'r cyfraddau disgwyliedig ar gyfer y sectorau gwybodaeth a chyfathrebu (3.1%) a gwasanaethau proffesiynol a gwasanaethau preifat eraill (2.8%).

Mae twf mewn incwm gwario gwirioneddol cartrefi yn debygol o ostwng o'i gyfradd gref yn 2015 (3%) a bydd hyn yn effeithio ar wariant defnyddwyr a fydd yn dal i ehangu'n arafach na chyfartaledd y DU (2.2%), er ei fod yn debygol o ehangu'n gyflymach nag yn ystod y cyfnod rhwng 2009 a 2014 (1.5%), ar gyfradd flynyddol gyfartalog o 1.9% rhwng 2016 a 2020.

## 2.6 Archebion ar gyfer gwaith adeiladu newydd – trosolwg

Cafwyd gwerth £2.1bn o archebion ar gyfer gwaith adeiladu newydd yng Nghymru mewn prisiau cyfredol yn 2014, sef yr un lefel â'r tair blynedd diwethaf. Mae lefel y gwaith tai cyhoeddus wedi bod yn gostwng ers pedair blynedd, a'r alldro o £58m (prisiau cyfredol) yn 2014 oedd yr isaf ers degawd. I'r gwrthwyneb, mae archebion newydd ar gyfer y sector preifat wedi aros yn gymharol sefydlog ers 2012. Cafwyd y twf cryfaf yn 2014 yn y sector cyhoeddus nad yw'n ymwneud â thai, lle'r oedd gwerth archebion newydd bron wedi dyblu.

## 2.7 Archebion ar gyfer gwaith adeiladu newydd – y sefyllfa sydd ohoni

Yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn hon, gwnaethant gyrraedd £1.7bn, o ganlyniad i hwb yn ystod y chwarter cyntaf gan lefel uchel iawn yn y sector seilwaith, a thybir bod hynny yn sgil y contract ar gyfer cynllun adfer ynni Wheelabrator yng Nglannau Dyfrdwy.

Ar sail flynyddol, roedd archebion newydd 17% yn uwch yn ystod ail chwarter y llynedd o gymharu â diwedd 2014, ond yn y sectorau seilwaith a diwydiannol y gwelwyd yr holl dwf, gyda gostyngiad yn y sectorau eraill i gyd.




## DANGOSYDDION ECONOMAIDD – CYMRU (£ BILIWN, PRISIAU CYFREDOL – ONI NODIR FEL ARALL)

| Sectorau dethol | Gwirioneddol | Newid % blynyddol rhagamcanol, termau gwirioneddol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
| Incwm gwario cartrefi | 50.0 | 3.0 | 1.1 | 1.6 | 1.8 | 1.2 | 1.7 |
| Gwariant cartrefi | 48.1 | 2.4 | 2.0 | 2.1 | 1.9 | 1.8 | 1.8 |
| Poblogaeth sydd o oedran gweithio Niferoedd ac fel canran o'r (cyfanswm) | 1,872 | 60.9% | 61.1% | 61.0% | 60.9% | 60.9% | 61.3% |
| Prisiau tai (£) | 191,000 | 3.6 | 2.9 | 3.0 | 2.2 | 2.3 | 3.0 |
| Diweithdra LFS (miliynau) | 0.13 | -0.5 | -6.9 | -4.6 | -3.9 | -2.7 | -2.4 |

*Ffynhonnell: SYG, DCLG, Experian*

## TWF MEWN ARCHEBION AR GYFER GWAITH ADEILADU NEWYDD 1998-2014 – CYMRU YN ERBYN PRYDAIN FAWR




*Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). Cyf: Esbonio CSN, Adran 3, Nodyn 4*

## ARCHEBION AR GYFER GWAITH ADEILADU NEWYDD – CYMRU (£ MILIWN, PRISIAU CYFREDOL)

| | Gwirioneddol | Newid canrannol blynyddol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2014 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
| Tai cyhoeddus | 58 | 31.4 | -44.4 | -2.0 | -15.3 | -30.1 |
| Tai preifat | 460 | 126.5 | -40.3 | 42.5 | -4.4 | 4.8 |
| Seilwaith | 271 | -29.1 | -37.7 | 159.5 | -2.6 | -43.5 |
| Y sector cyhoeddus nad yw'n ymwneud â thai | 837 | -14.6 | -21.7 | 31.7 | -11.0 | 88.5 |
| Diwydiannol | 116 | -68.6 | -1.4 | 12.3 | -11.0 | 58.9 |
| Masnachol | 360 | 12.1 | -32.0 | 28.7 | 21.6 | -35.9 |
| **Cyfanswm y gwaith newydd** | **2,102** | **1.4** | **-32.5** | **47.2** | **-0.6** | **1.0** |

*Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). Cyf: Esbonio CSN, Adran 3, Nodyn 4*

## 2.8 Allbwn adeiladu – rhagolygon tymor byr (2016–2017)

Cyhoeddir ystadegau allbwn rhanbarthol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn ôl prisiau cyfredol ac felly maent yn cynnwys unrhyw effaith chwyddiannol. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, dim ond ar gyfer dau chwarter cyntaf 2015 yr oedd ystadegau allbwn adeiladu rhanbarthol SYG ar gael.

Ar ôl saith chwarter o ehangu o ran gweithgarwch, ymddengys fod lefelau allbwn adeiladu yng Nghymru wedi sefydlogi ar y cyfan ers ail chwarter 2014, yn unol â'r proffil o archebion newydd. Roedd cyfanswm yr allbwn yn £2.4bn (prisiau cyfredol) yn ystod hanner cyntaf y llynedd, sef gostyngiad o 4% ar brisiau yr hanner blwyddyn blaenorol, ond tua'r un lefel â'r hyn a welwyd yn ystod yr un cyfnod o 2014. Ar sail flynyddol, cafwyd cynnydd yn y sectorau tai cyhoeddus (7%), seilwaith (52%) a diwydiannol (13%), ac yn y sector cyhoeddus nad yw'n ymwneud â thai (5%), ond cafwyd gostyngiad yn y sectorau eraill, gan adael cyfanswm allbwn yn ail chwarter 2015 a oedd ar yr un lefel, fwy neu lai, ag yr oedd ar ddiwedd 2014. Er gwaethaf y perfformiad tawel yn 2015 hyd yn hyn, disgwylir y bydd y twf yn cyflymu yn ystod ail hanner y flwyddyn, gan sicrhau alldro cadarnhaol ar gyfer y flwyddyn yn ei chyfanrwydd.

Rhagamcenir y bydd twf tymor byr yng Nghymru yn 4.8% y flwyddyn, ar gyfartaledd, yn 2016 a 2017, sy'n dangos nad yw ehangu yn niwydiant adeiladu'r wlad yn dibynnu ar ddechrau ar y gwaith o adeiladu gorsaf niwclear newydd yn Wylfa yn unig.

Mae 2015 a 2016 yn debygol o fod yn flynyddoedd gwael i'r sector tai cyhoeddus, wrth i allbwn barhau i dawelu ers y lefel uchel iawn a welwyd yn 2011. Er gwaethaf hyn, mae'r rhaglen Grant Tai Cymdeithasol wedi darparu cyfanswm o 6,890 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol rhwng mis Ebrill 2011 a mis Mawrth 2014, ac mae ar y trywydd cywir i gyrraedd y targed, sef 10,000 erbyn mis Mawrth 2016, yn ôl Llywodraeth Cymru.

I'r gwrthwyneb, disgwylir i'r sector tai preifat wneud yn well eleni a'r flwyddyn nesaf, ond bydd y twf yn lefelu wedyn, ar y cyfan, yn y tymor canolig. Yn ddiau, ceir nifer o gynlluniau preswyl mawr yn yr arfaeth, yn enwedig yn ne-ddwyrain Cymru.



Fodd bynnag, mae gan lawer ohonynt gyfnodau datblygu hir, ac felly bydd eu heffaith ar weithgarwch adeiladu o un flwyddyn i'r llall yn gymharol fach, o ystyried bod y farchnad breifat yn fwy o lawer na'r farchnad gyhoeddus. Adlewyrchir y farchnad gymharol wan yng Nghymru yn y data prisiau tai diweddaraf. Mae cyfres addasu prisiau tai yn ôl amrywiaeth SYG yn dangos gostyngiad o 2.1% o un chwarter i'r llall yn y lefel ar gyfer Cymru yn ystod ail chwarter eleni, gyda'r gyfradd twf flynyddol yn gostwng i 1.2% yn unig. Mae adroddiad Halifax yn dangos proffil tebyg, gyda gostyngiad o 1.1% o un chwarter i'r llall a chynnydd blynyddol o 2.9%, tra bo mynegai Nationwide yn dangos +1% a -0.8%, yn y drefn honno, ar yr un mesurau. Dyma rai o'r ffigurau gwannaf o ran twf diweddar mewn prisiau tai ledled y rhanbarthau a'r gwledydd datganoledig.

Mae'r rhagolygon ar gyfer adeiladu seilwaith yn dda yn y tymor byr, gydag allbwn y sector yn debygol o gyrraedd ei lefel uchaf erioed yn 2016, wedi'i sbarduno i raddau helaeth gan gyfleuster adfer ynni Wheelabrator yng Nglannau Dyfrdwy. Cafodd prosiect Morlyn Llanw Bae Abertawe ganiatâd cynllunio ym mis Mehefin, a'r dyddiad dechrau diweddaraf ar gyfer gwaith adeiladu'r prosiect yw dechrau 2017. Hefyd, mae rhai prosiectau bach i ganolig yn yr arfaeth ar yr M4, gan gynnwys prosiect gwerth £40m i adnewyddu twnelau Bryn-glas, a oedd i fod i ddechrau tua diwedd 2015, a phrosiect gwerth £20m i wella cyffordd 28, y disgwylir iddo ddechrau eleni.

Mae'r sector adeiladu diwydiannol yn sector arall lle y disgwylir twf da yn ystod rhan gynnar cyfnod y rhagolwg, ond disgwylir i'r twf hwnnw arafu ar ôl hynny. Yn wahanol i ran helaeth o weddill y DU, mae'n debygol mai adeiladu ffatrïoedd fydd prif sbardun yr ehangu, yn hytrach nag adeiladu warysau. Un o'r prosiectau adnewyddu diwydiannol a masnachol mwyaf yng Nghymru yw'r gwaith parhaus i ailddatblygu hen Lofa Oakdale, ger Caerffili. Mae'r safle 400 erw wrthi'n cael ei adfywio gan Gyngor Bwrdeistref Caerffili mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, ac mae wedi cael swm sylweddol o gyllid gan yr Undeb Ewropeaidd. Disgwylir mai'r datblygiad nesaf ar y safle fydd uned gweithgynhyrchu a storio gwerth £17m ar gyfer IG Doors, a disgwylir i'r gwaith hwnnw ddechrau ym mis Mehefin 2016.


Roedd perfformiad y sector adeiladu masnachol yn wael iawn yn ystod 2014, ac mae'n ymddangos bod gweithgarwch wedi parhau i leihau yn ystod 2015. Fodd bynnag, yn sgil yr hyn sydd yn yr arfaeth, mae'n debygol y bydd y sector yn ailddechrau tyfu yn 2016 a pharhau i ehangu yn y tymor canolig. Mae cynlluniau manwl ar gyfer y prosiect gwerth £500m i ailddatblygu canol dinas Abertawe wedi cael eu llunio ar ôl i ganiatâd cynllunio amlinellol gael ei roi yn 2015. Mae datblygiad defnydd cymysg yn cael ei gynnig ar gyfer safle Dewi Sant, a allai gynnwys manwerthu, hamdden a swyddfeydd, tra bydd safle'r ganolfan ddinesig ar ymyl y traeth yn cynnwys cyfleusterau i dwristiaid a mannau cyhoeddus. Mae'r cyngor yn gobeithio y byddant wedi penodi datblygwr neu ddatblygwyr erbyn diwedd y llynedd.

## ALLBWN ADEILADU – CYMRU (£ MILIWN, PRISIAU 2012)

| | Gwirioneddol | Newid canrannol blynyddol rhagamcanol | | | Cyfartaledd blynyddol |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2016-2017 |
| Tai cyhoeddus | 124 | -4% | -5% | 9% | 1.7% |
| Tai preifat | 636 | 7% | 5% | -4% | 0.7% |
| Seilwaith | 557 | 52% | 18% | -3% | 6.7% |
| Y sector cyhoeddus nad yw'n ymwneud â thai | 665 | 11% | 1% | 10% | 5.6% |
| Diwydiannol | 108 | 0% | 10% | 7% | 8.4% |
| Masnachol | 750 | -13% | 10% | 6% | 8.1% |
| **Cyfanswm y gwaith newydd** | **2,839** | **11%** | **9%** | **2%** | **5.3%** |
| Atgyweirio a chynnal a chadw tai | 1,032 | 0% | 4% | 3% | 3.4% |
| Gwaith atgyweirio a chynnal a chadw nad yw'n ymwneud â thai | 674 | -1% | 5% | 3% | 4.1% |
| **Cyfanswm atgyweirio a chynnal a chadw** | **1,706** | **0%** | **4%** | **3%** | **3.6%** |
| **Cyfanswm y gwaith** | **4,545** | **7%** | **7%** | **2%** | **4.8%** |

*Ffynhonnell: Experian. Cyf: Esbonio CSN, Adran 3, Nodiadau 1 a 2*

## TWF ALLBWN ADEILADU CYFARTALOG BLYNYDDOL 2016-2017 – CYMRU




*Ffynhonnell: Experian. Cyf: Esbonio CSN, Adran 3, Nodyn 2*

> Mae ARR Cymru, sef 5,440, yn 4.7% o gyflogaeth sylfaen 2016, sef y gyfradd uchaf o blith rhanbarthau Lloegr a'r gwledydd datganoledig eraill, a chyfradd uwch o lawer na chyfradd y DU, sef 1.7%.

Cododd y ganran o dai cymdeithasol sy'n cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru 5% arall yn ystod y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2015, i 72%, ond mae hyn yn awgrymu efallai y bydd angen i'r rhaglen gyflymu ychydig er mwyn cyrraedd y targed ar gyfer 2020.

### 2.9 Allbwn adeiladu – rhagolygon hirdymor (2016-2020)

Mae'r rhagolygon allbwn ar gyfer y pum mlynedd rhwng 2016 a 2020 yn dangos cyfradd gadarn iawn o 7.1% y flwyddyn ar gyfartaledd, wedi'i sbarduno i raddau helaeth gan dwf seilwaith sy'n uwch na 21% y flwyddyn wrth i waith ddechrau ar brosiect Wylfa yn 2019. Fodd bynnag, disgwylir i bob sector weld rhyw lefel o ehangu, a hyd yn oed petai Wylfa yn cael ei eithrio, rhagamcenir cynnydd blynyddol o 3.7% ar gyfartaledd, yn rhannol o ganlyniad i Lywodraeth Cymru yn llwyddo i ddenu cyllid o ffynonellau eraill drwy systemau arloesol.

Mae rhai rhaglenni tai sylweddol yn yr arfaeth a ddylai sbarduno twf o ran allbwn tai cyhoeddus yn y tymor canolig. Mae gan Gyngor Caerdydd gynlluniau i ddarparu 1,000 o gartrefi newydd ledled y ddinas dros y degawd nesaf, ac mae Cyngor Sir y Fflint yn bwriadu cyflawni rhaglen adfywio gwerth £500m dros y pump i saith mlynedd nesaf, a fydd yn cynnwys adeiladu llawer o dai. Fodd bynnag, mae'n bosibl mai'r sector cymdeithasau tai fydd y prif beiriant twf. Er enghraifft, Cymdeithas Dai Clwyd Alyn yw un o ddarparwyr tai cymdeithasol mwyaf blaenllaw gogledd Cymru, gan reoli mwy na 5,500 o dai. Ar hyn o bryd, mae ganddi 23 o brosiectau yn cael eu datblygu ledled Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Powys a Wrecsam, gan gynnwys 154 o unedau i'w rhentu a 26 i'w rhentu neu eu prynu.

Soniwyd eisoes am y cyfnodau datblygu hir ar gyfer cynlluniau tai preifat sydd yn yr arfaeth yn yr adran flaenorol. Un o'r prosiectau adfywio mwyaf ag elfen breswyl fawr sydd wrthi'n mynd rhagddo yng Nghymru yw'r cynllun gwerth £420m ar Heol Dumballs yng Nghaerdydd. Dechreuodd y gwaith dymchwel yn 2014 a disgwylir i'r prosiect ddarparu mwy na 2,000 o gartrefi newydd erbyn 2020/21. Mae Taylor Wimpey wrthi'n cyflawni prosiect i ddatblygu 1,200 o gartrefi yn Ne Sebastopol, Torfaen. Bydd cam 1 y cynllun, ar gyfer 101 o unedau, yn dechrau yn fuan.

Yr elfen amlycaf yn y rhagolwg pum mlynedd ar gyfer y sector seilwaith yw dechrau'r gwaith o adeiladu gorsaf niwclear newydd yn Wylfa yn 2019. Fodd bynnag, nid hwn yw'r unig brosiect mawr a fydd yn dechrau yn ystod ail hanner cyfnod y rhagolwg. Disgwylir i'r gwaith ar goridor newydd yr M4 ger Casnewydd ddechrau yn 2018, ac yn yr is-sector rheilffyrdd caiff gwerth mwy na £2bn o waith trydaneiddio ac adnewyddu ei wneud yng Nghymru yn ystod Cyfnod Rheoli 5 (CP5) Network Rail, rhwng 2015 a 2019, ac nid oes dim o'r gwaith hwn wedi'i oedi.

Disgwylir i'r pwyslais yn y sector cyhoeddus nad yw'n ymwneud â thai newid o'r is-sector addysg i'r sector iechyd yn y tymor canolig. Ar wahân i'r Ganolfan Gofal Critigol gwerth £245m, mae cynigion ar gyfer buddsoddi £200m arall yn Ysbyty Felindre wrthi'n cael eu datblygu. Mae'r ysbyty, sydd wedi'i lleoli yng Nghaerdydd, yn darparu gwasanaethau gofal canser arbenigol i dde-ddwyrain Cymru. Y gobaith yw y bydd cyllid ar gyfer y gwaith yn cael ei ddarparu drwy'r model dosbarthu dielw, a ddatblygwyd yn wreiddiol gan Lywodraeth yr Alban fel dewis arall yn lle'r fenter cyllid preifat. Mae gwerth tua £82m o waith ailddatblygu yn Ysbyty Treforys yn Abertawe i fod i gael ei gwblhau o gwmpas yr adeg hon, ond mae achos busnes yn cael ei lunio ar gyfer rhagor o waith, gan gynnwys adleoli gwasanaethau mamolaeth sydd wedi'u lleoli ar hyn o bryd yn Ysbyty Singleton, canolfan gardiaidd newydd, ac uned iechyd meddwl aciwt i oedolion. Amcangyfrifir bod y gwaith adeiladu ar yr elfennau hyn yn werth £154m. Bydd y carchar mawr yn Wrecsam yn parhau i sicrhau llif allbwn ar gyfer y flwyddyn nesaf, o leiaf.

Mae'r cyfnod datblygu byr iawn ar gyfer cynlluniau adeiladu diwydiannol yn golygu mai yn anaml iawn y bydd gwybodaeth am y prosiect yn ymestyn yn hwy na dwy flynedd, ac felly mae'n rhaid dibynnu mwy ar asesu'r hyn sy'n sbarduno galw yn y sector. Mae twf allbwn gweithgynhyrchu o 1.6% y flwyddyn ar gyfartaledd yn annhebygol o sbarduno llawer o alw am adeiladu ffatrïoedd. Mae'r rhagolygon yn well o ran y galw am gyfleusterau dosbarthu a logisteg, gyda chynnydd rhagamcanol mewn allbwn trafnidiaeth a storio o 2% y flwyddyn ar gyfartaledd, er nad yw hyn, hyd yn oed, yn arbennig o gryf.

O'r sectorau sy'n sbarduno galw am adeiladau masnachol, rhagamcenir mai yn y sector gwybodaeth a chyfathrebu (3.1%) y bydd twf blynyddol cyfartalog ar ei gryfaf, gyda'r sector gwasanaethau proffesiynol a gwasanaethau preifat eraill (2.8%) yn dilyn. Disgwylir i'r ehangu yn y sectorau ariannol ac yswiriant, cyfanwerthu a manwerthu, a llety, gwasanaethau bwyd a hamdden fod yn is, sef rhwng 2% a 2.5% y flwyddyn ar gyfartaledd, sy'n awgrymu bod y galw'n debygol o fod yn gryfach am adeiladau swyddfeydd yn hytrach nag adeiladau manwerthu neu hamdden.

### 2.10 Y Tu Hwnt i 2020

Bydd adeiladu gorsaf niwclear newydd yn Wylfa yn parhau i greu llif allbwn ymhell y tu hwnt i gyfnod y rhagolwg presennol – yn ôl Cymdeithas y Diwydiant Niwclear bydd y prosiect yn cael ei gyflawni yn 2025 – ac mae nifer o brosiectau eraill yn yr arfaeth ar gyfer Ynys Môn a allai wneud yr ynys yn ganolbwynt i weithgarwch adeiladu am sawl blwyddyn i ddod.


Mae llawer ohonynt yn aros i bwyso a mesur llwyddiant neu ddiffyg llwyddiant prosiect Morlyn Llanw Abertawe, ac os gwelir ei fod yn ddichonadwy, gallai arwain at amrywiaeth o brosiectau o'r fath o gwmpas arfordir Cymru.

## ALLBWN ADEILADU – CYMRU (£ MILIWN, PRISIAU 2012)

| | Amcangyfrif | Newid canrannol blynyddol rhagamcanol | | | | | Cyfartaledd blynyddol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2016-2020 |
| Tai cyhoeddus | 118 | -5% | 9% | 11% | 4% | 4% | 4.3% |
| Tai preifat | 682 | 5% | -4% | -4% | 2% | 4% | 0.6% |
| Seilwaith | 847 | 18% | -3% | 8% | 77% | 20% | 21.2% |
| Y sector cyhoeddus nad yw'n ymwneud â thai | 740 | 1% | 10% | 4% | -1% | 5% | 3.9% |
| Diwydiannol | 108 | 10% | 7% | 1% | -3% | -4% | 2.0% |
| Masnachol | 656 | 10% | 6% | 6% | 6% | 1% | 5.9% |
| **Cyfanswm y gwaith newydd** | **3,151** | **9%** | **2%** | **4%** | **24%** | **10%** | **9.5%** |
| Atgyweirio a chynnal a chadw tai | 1,032 | 4% | 3% | -1% | 3% | 3% | 2.3% |
| Gwaith atgyweirio a chynnal a chadw nad yw'n ymwneud â thai | 669 | 5% | 3% | 0% | 1% | 1% | 1.9% |
| **Cyfanswm atgyweirio a chynnal a chadw** | **1,701** | **4%** | **3%** | **-1%** | **2%** | **2%** | **2.2%** |
| **Cyfanswm y gwaith** | **4,852** | **7%** | **2%** | **2%** | **16%** | **8%** | **7.1%** |

*Ffynhonnell: Experian. Cyf: Esbonio CSN, Adran 3, Nodiadau 1 a 2*

## TWF ALLBWN ADEILADU CYFARTALOG BLYNYDDOL 2016-2020 – CYMRU




*Ffynhonnell: Experian. Cyf: Esbonio CSN, Adran 3, Nodyn 2*

ADRAN 3

# RHAGOLYGON CYFLOGAETH AR GYFER Y DIWYDIANT ADEILADU YNG NGHYMRU

### 3.1 Rhagolygon ar gyfer cyfanswm cyflogaeth yn y diwydiant adeiladu yn ôl galwedigaeth

Mae'r tabl gyferbyn yn nodi cyflogaeth wirioneddol ar gyfer y diwydiant adeiladu (SICs 41-43, 71.1 a 74.9) yng Nghymru yn 2014, cyfanswm amcangyfrifedig cyflogaeth ar draws 28 o gategorïau galwedigaethol yn 2015 a rhagolygon ar gyfer y diwydiant rhwng 2016 a 2020. Ceir dadansoddiad llawn o grwpiau galwedigaethol yn Adran 5 o Esbonio CSN.

Disgwylir i dwf cyflogaeth cyfartalog blynyddol yng Nghymru fod ar gyfradd gadarn iawn o 2.9% dros y pum mlynedd hyd at 2020, sy'n uwch o lawer na'r gyfradd ar gyfer y DU, sef 1.1%. Yn wahanol i weddill y DU, rhagamcenir y bydd twf cyflogaeth yng Nghymru yn cyflymu eto ar ddiwedd cyfnod y rhagolwg, wrth i waith ar brosiect Wylfa godi stêm. Er nad yw adeiladu gorsaf niwclear yn waith arbennig o lafurddwys o gymharu ag adeiladu tai neu waith cynnal a chadw, er enghraifft, ar uchafbwynt y gweithgarwch ar Wylfa, disgwylir y bydd bron i 5,000 o weithwyr adeiladu yn cael eu cyflogi ar y prosiect.

Mewn rhifau, rhagamcenir y bydd cyflogaeth yn codi o tua 112,400 yn 2015 i 129,900 yn 2020, sef cynnydd o bron i 17,500, a dim ond Llundain, De-ddwyrain Lloegr a Gogledd-orllewin Lloegr fydd â chyfraddau uwch, sy'n berfformiad da iawn gan wlad ddatganoledig sydd â'r trydydd diwydiant adeiladu lleiaf yn y DU. Mae cyflogaeth adeiladu yng Nghymru yn debygol o gyrraedd yr un uchafbwynt â 2008 yn 2018, a rhagori arno o 5% yn 2020.

O'r 28 o gategorïau galwedigaethol, rhagamcenir y bydd 27 yn gweld twf, gyda'r galw yn arbennig o gryf am weithwyr adeiladu proffesiynol – peirianwyr sifil, penseiri a syrfewyr – a rhai rheolwyr. Mae nifer o'r crefftau hefyd yn debygol o brofi twf o fwy na 3% y flwyddyn mewn galw am gyflogaeth dros gyfnod y rhagolwg.



## CYFANSWM CYFLOGAETH YN ÔL GALWEDIGAETH – CYMRU

| | Gwirioneddol 2014 | Amcangyfrif 2015 | Rhagolwg | |
|---|---|---|---|---|
| | | | 2016 | 2020 |
| Uwch reolwyr, rheolwyr gweithredol a rheolwyr prosesau busnes | 4,070 | 4,020 | 4,110 | 4,330 |
| Rheolwyr prosiectau adeiladu | 1,260 | 1,350 | 1,410 | 1,600 |
| Rheolwyr prosesau adeiladu eraill | 7,690 | 7,710 | 8,120 | 9,450 |
| Staff proffesiynol, technegol, TG a staff swyddfa eraill nad ydynt yn staff adeiladu | 10,460 | 11,150 | 11,530 | 12,440 |
| Goruchwylwyr crefftau adeiladu | 2,330 | 2,260 | 2,250 | 2,340 |
| Crefftau pren a dodrefnwyr mewnol | 14,030 | 14,100 | 14,650 | 16,000 |
| Bricwyr | 6,910 | 6,820 | 7,120 | 7,920 |
| Arbenigwyr amlen adeilad | 3,910 | 4,230 | 4,410 | 4,850 |
| Peintwyr ac addurnwyr | 5,040 | 5,460 | 5,710 | 6,480 |
| Plastrwyr | 4,220 | 4,530 | 4,760 | 5,310 |
| Towyr | 1,430 | 1,410 | 1,460 | 1,580 |
| Gosodwyr llawr | 130 | 140 | 140 | 160 |
| Gwydrwyr | 580 | 570 | 590 | 610 |
| Gweithredwyr adeiladu arbenigol nec* | 3,800 | 4,110 | 4,220 | 4,570 |
| Sgaffaldwyr | 810 | 810 | 840 | 900 |
| Gweithredwyr peiriannau | 1,810 | 1,760 | 1,780 | 1,980 |
| Mecanyddion/gosodwyr cyfarpar | 1,410 | 1,420 | 1,490 | 1,700 |
| Gosodwyr dur/strwythurol | 1,250 | 1,220 | 1,250 | 1,320 |
| Llafurwyr nec* | 5,410 | 5,750 | 6,010 | 6,690 |
| Crefftau trydanol a gwaith gosod | 7,000 | 6,860 | 7,110 | 7,850 |
| Crefftau Plymio a HVAC | 10,260 | 10,070 | 10,480 | 11,810 |
| Logisteg | 740 | 750 | 750 | 770 |
| Gweithredwyr peirianneg sifil nec* | 1,320 | 1,350 | 1,420 | 1,630 |
| Gweithredwyr nad ydynt yn ymwneud ag adeiladu | 1,190 | 1,290 | 1,290 | 1,230 |
| Peirianwyr sifil | 2,220 | 2,240 | 2,350 | 2,720 |
| Gweithwyr adeiladu a staff technegol proffesiynol eraill | 4,990 | 5,370 | 5,660 | 6,600 |
| Penseiri | 1,130 | 1,210 | 1,280 | 1,480 |
| Syrfewyr | 4,130 | 4,440 | 4,750 | 5,580 |
| **Cyfanswm (SIC 41-43)** | **97,060** | **99,140** | **102,900** | **113,520** |
| **Cyfanswm (SIC 41-43, 71.1, 74.9)** | **109,530** | **112,400** | **116,940** | **129,900** |

*Ffynhonnell: SYG, CSN, Experian. Cyf: Esbonio CSN, Adran 3, Nodiadau 5 a 6*
**Heb eu dosbarthu mewn man arall*

## 3.2 Gofynion recriwtio blynyddol (ARR) yn ôl galwedigaeth

Gofyniad gros yw'r ARR sy'n ystyried llifau'r gweithlu i mewn ac allan o'r diwydiant adeiladu oherwydd ffactorau fel symudiadau rhwng diwydiannau, mudo, salwch ac ymddeoliad. Fodd bynnag, nid yw'r llifau hyn yn cynnwys ymuno â'r diwydiant yn dilyn hyfforddiant, oherwydd anghysondeb a chwmpas data cyflenwi. Felly, mae'r ARR yn rhoi syniad o nifer y cyflogeion newydd y byddai angen eu recriwtio i'r diwydiant adeiladu bob blwyddyn er mwyn gwireddu'r allbwn a ragwelir.

Mae ARR Cymru, sef 5,440, yn 4.7% o gyflogaeth sylfaen 2016, sef y gyfradd uchaf o blith rhanbarthau Lloegr a'r gwledydd datganoledig eraill, a chyfradd uwch o lawer na chyfradd y DU, sef 1.7%. Mae tueddiad y wlad i golli rhan sylweddol o'i gweithlu adeiladu dros y ffin i Dde-orllewin a Gogledd-orllewin Lloegr yn golygu bod ei ARR yn parhau i fod yn uchel. Rhagamcenir cymarebau ARR sy'n uwch na 5% ar gyfer nifer o alwedigaethau crefft ac ambell alwedigaeth rheoli a phroffesiynol.

Noder mai gofynion cyflogaeth yw pob ARR a gyflwynir yn yr adran hon ac nid o reidrwydd gofynion hyfforddiant. Y rheswm dros hyn yw y bydd rhai newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant adeiladu, fel ymfudwyr medrus neu'r rheini o ddiwydiannau eraill lle y mae sgiliau tebyg yn cael eu defnyddio eisoes, yn gallu gweithio yn y diwydiant heb fod angen ailhyfforddiant sylweddol arnynt.

Mae gweithredwyr nad ydynt yn ymwneud ag adeiladu yn grŵp galwedigaethol amrywiol sy'n cynnwys yr holl weithgareddau o dan ambarél SICs 41-43, 71.1 a 74.9 na ellir eu dosbarthu mewn mannau eraill, fel glanhawyr, galwedigaethau diogelwch elfennol nec ac arolygwyr ac aseswyr rheolaidd. Gall y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y galwedigaethau hyn gael eu trosglwyddo'n hawdd i ddiwydiannau eraill ac mae rhagweld symudiad o'r fath yn beryglus o gofio'r ffaith bod prinder data ategol cadarn. Felly, ni chaiff yr ARR ar gyfer gweithredwyr nad ydynt yn ymwneud ag adeiladu ei gyhoeddi.



## GOFYNIAD RECRIWTIO BLYNYDDOL YN ÔL GALWEDIGAETH – CYMRU

| | 2016-2020 |
|---|---|
| Uwch reolwyr, rheolwyr gweithredol a rheolwyr prosesau busnes | 160 |
| Rheolwyr prosiectau adeiladu | - |
| Rheolwyr prosesau adeiladu eraill | - |
| Staff proffesiynol, technegol, TG a staff swyddfa eraill nad ydynt yn staff adeiladu | 1,020 |
| Goruchwylwyr crefftau adeiladu | 160 |
| Crefftau pren a dodrefnwyr mewnol | 920 |
| Bricwyr | 660 |
| Arbenigwyr amlen adeilad | 170 |
| Peintwyr ac addurnwyr | 450 |
| Plastrwyr | 160 |
| Towyr | 120 |
| Gosodwyr llawr | - |
| Gwydrwyr | <50 |
| Gweithredwyr adeiladu arbenigol nec* | - |
| Sgaffaldwyr | <50 |
| Gweithredwyr peiriannau | 70 |
| Mecanyddion/gosodwyr cyfarpar | 150 |
| Gosodwyr dur/strwythurol | <50 |
| Llafurwyr nec* | 600 |
| Crefftau trydanol a gwaith gosod | 270 |
| Crefftau Plymio a HVAC | <50 |
| Logisteg | <50 |
| Gweithredwyr peirianneg sifil nec* | <50 |
| Peirianwyr sifil | - |
| Gweithwyr adeiladu a staff technegol proffesiynol eraill | 200 |
| Penseiri | 130 |
| Syrfewyr | 100 |
| **Cyfanswm (SIC 41-43)** | **5,010** |
| **Cyfanswm (SIC 41-43, 71.1, 74.9)** | **5,440** |

*Ffynhonnell: CSN, Experian. Cyf: Esbonio CSN, Adran 3, Nodiadau 5 a 6*
**Heb eu dosbarthu mewn man arall*

ADRAN 4

# CYMARIAETHAU LEDLED Y DU

2.5%

Mae rhagolwg cyffredinol y DU o gynnydd blynyddol cyfartalog o 2.5% mewn allbwn dros y cyfnod rhwng 2016 a 2020 ychydig yn uwch na'r cynnydd o 2.1% a welwyd yn y cyfnod diwethaf o dwf yn y diwydiant adeiladu, rhwng 1995 a 2007. Fodd bynnag, mae hynny'n cuddio rhai perfformiadau gwahanol iawn gan ranbarthau a'r gwledydd datganoledig, o ehangu disgwyliedig o fwy na 7% yng Nghymru i ddim ond 0.5% yn yr Alban.

Cymru a De-orllewin Lloegr sydd yn y safleoedd uchaf o ran twf, ac mae hynny wedi bod yn wir ers cryn amser, ond mae eu perfformiad cryf wedi'i briodoli i raddau helaeth i'r prosiectau adeiladu gorsafoedd niwclear newydd yn Hinkley Point a Wylfa. Rhagamcenir y bydd gan Lundain Fwyaf hefyd sector seilwaith cryf, gyda gwaith yn dechrau ar yr estyniad i'r Northern Line a phrosiectau Llwybr Llanw Afon Tafwys a High Speed 2 yn yr arfaeth. Dylai'r prosiectau hyn wneud mwy na gwrthbwyso cwblhau cynlluniau Crossrail a Thameslink.

Er bod disgwyl i'r twf yn Llundain a Dwyrain Lloegr fod yn gadarn, mae'r rhagolwg ar gyfer De-ddwyrain Lloegr yn gymharol wael, gyda phrinder prosiectau mawr yn yr arfaeth, ac eithrio cynllun Paramount Park gwerth £2bn. Felly, mae De-ddwyrain Lloegr yn llai canolog i'r rhagolygon nag y gall fod ar adegau.


Mae Gogledd Iwerddon yn debygol o fod yn un o'r rhanbarthau sy'n tyfu gyflymaf dros y pum mlynedd hyd at 2020, ond bydd allbwn adeiladu yn ailddechrau tyfu o sylfaen isel iawn a cheir pryderon y gallai'r ansicrwydd gwleidyddol presennol beri oedi i ddechrau prosiectau cyhoeddus.

Yn yr Alban, ceir lefel eithriadol o uchel o fuddsoddi mewn seilwaith ar hyn o bryd, gyda'r allbwn yn 2014 tua dwbl cyfartaledd blynyddol y 10 mlynedd diwethaf, ac roedd disgwyl iddo gynyddu ymhellach yn 2015. Ar ôl hynny, bydd prosiectau, megis yr amrywiaeth o brosiectau uwchraddio traffyrdd, yn dechrau cael eu cwblhau ac mae'n debygol y bydd gweithgarwch yn y sector yn gostwng yn sydyn, gan olygu bod cyfradd gyffredinol yr Alban o ran twf yn y diwydiant adeiladu yn gostwng i ddim ond hanner canran y flwyddyn, ar gyfartaledd.

Mae twf cyflogaeth ledled y rhanbarthau a'r gwledydd datganoledig yn tueddu i adlewyrchu'r twf o ran allbwn, ond ar lefel is oherwydd yr enillion mewn cynhyrchiant a ddisgwylir a chyda rhai mân addasiadau, yn dibynnu ar b'un a yw'r twf mewn allbwn mewn sectorau â llafurddwysedd uchel neu isel. Rhagamcenir y bydd twf cyflogaeth blynyddol o 1.1%, ar gyfartaledd, ledled y DU yn ei chyfanrwydd dros y cyfnod rhwng 2016 a 2020, gydag uchafbwynt o 2.9% yng Nghymru ac isafbwynt o ostyngiad o 0.7% y flwyddyn yn yr Alban. Er gwaethaf y ffaith nad yw adeiladu gorsaf niwclear yn waith arbennig o lafurddwys, mae Wylfa yn brosiect mawr iawn mewn marchnad fach, felly bydd yn ychwanegu bron i 2% at gyflogaeth adeiladu yng Nghymru yn 2020. Mae'r effaith yn llai yn Ne-orllewin Lloegr, sydd â marchnad adeiladu fwy, ond hyd yn oed yn y rhanbarth hwnnw, bydd yn helpu i sbarduno twf da mewn cyflogaeth, sef dros 2% y flwyddyn, ar gyfartaledd. Yn yr Alban, y gwrthwyneb sy'n wir, ac mae gostyngiad sydyn mewn allbwn seilwaith, er gwaethaf ei mewnbwn llafur cymharol isel, yn debygol o arwain at ostyngiad mewn cyflogaeth adeiladu yn y wlad honno ar ôl 2016.


Gall patrwm ARR edrych yn wahanol iawn i'r proffil o allbwn a chyflogaeth, gan fod gan rai rhanbarthau a gwledydd datganoledig hanes o fewnlifau net cryf a bod rhai yn dioddef all-lifau net mawr. Llundain Fwyaf a Chymru sy'n tueddu i ddangos yr enghreifftiau mwyaf eithafol o'r patrwm hwn. Mae gan Lundain ARR cymharol isel, er gwaethaf twf cyflogaeth rhagamcanol cryf (2% y flwyddyn), gan ei bod yn denu gweithwyr adeiladu o bob cwr o'r DU a'r tu hwnt, felly mae ei ARR o 0.9% yn isel o gymharu â chyflogaeth sylfaen 2016. Ar ben arall y raddfa, mae Cymru'n tueddu i ddioddef all-lifoedd net cryf, yn enwedig i Ogledd-orllewin a De-orllewin Lloegr, ac mae hyn, o'i gyfuno â rhagolwg cadarnhaol o ran twf cyflogaeth ac allbwn, yn golygu bod ei ARR o 4.7% yn uchel o gymharu â chyflogaeth sylfaen 2016.

## TWF ALLBWN ADEILADU CYFARTALOG BLYNYDDOL YN ÔL RHANBARTH 2016-2020 CYMRU




*Ffynhonnell: Experian. Cyf: Esbonio CSN, Adran 3, Nodyn 2*

## GOFYNIAD RECRIWTIO BLYNYDDOL (ARR) YN ÔL RHANBARTH 2016-2020




*Ffynhonnell: CSN, Experian*

> Disgwylir i dwf cyflogaeth cyfartalog blynyddol yng Nghymru fod ar gyfradd gadarn iawn o 2.9% dros y pum mlynedd hyd at 2020, sy'n uwch o lawer na'r gyfradd ar gyfer y DU, sef 1.1%.

# ESBONIO CSN

Mae'r atodiad hwn yn darparu manylion ac eglurhad pellach am rai o'r pwyntiau a wneir yn yr adroddiad.

Mae **Adran 1** yn rhoi trosolwg o'r dulliau sylfaenol a ddefnyddir gan CSN, drwy weithio mewn partneriaeth ag Experian, i greu'r gyfres o adroddiadau ar lefel y DU, ar lefel genedlaethol ac ar lefel ranbarthol.

Rhydd **Adran 2** restr termau sy'n esbonio rhai o'r termau a ddefnyddir yn yr adroddiadau.

Mae **Adran 3** yn cynnwys rhai nodiadau pellach yn ymwneud â'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd ar gyfer y siartiau a'r tablau amrywiol. Mae'r adran hon hefyd yn nodi ystyr y term 'ôl troed', pan drafodir y meysydd cyfrifoldeb sydd gan Gyngor Sgiliau Sector (CSS) neu Gyrff Sector.

Mae **Adran 4** yn esbonio'r diffiniadau o sectorau a ddefnyddir yn yr adroddiad ac yn nodi enghreifftiau o'r hyn sy'n cael ei gynnwys ym mhob un.

Mae **Adran 5** yn rhoi dadansoddiad manwl o'r 28 o grwpiau galwedigaethol yn ôl codau dosbarthiad galwedigaethol safonol (SOC) a gyfunir i ddarparu'r gofyniad cyflogaeth a recriwtio.

Mae **Adran 6**, ar ddiwedd yr atodiad hwn, yn rhoi manylion am yr ystod o adroddiadau LMI, manteision bod yn aelod o CSN a manylion cyswllt ar gyfer ymaelodi.



ADRAN 1

# METHODOLEG CSN

## Cefndir

Mae'r Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu wedi bod yn esblygu ers iddo gael ei sefydlu yn 2005, gan sicrhau bod gan SgiliauAdeiladu ffordd o gasglu a chynhyrchu gwybodaeth am anghenion cyflogaeth a hyfforddiant y diwydiant ar gyfer y dyfodol.

SgiliauAdeiladu yw'r Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer y Diwydiant Adeiladu, ac mae'n cynhyrchu gwybodaeth gadarn am y farchnad lafur sy'n rhoi sail i gynllunio ar gyfer anghenion sgiliau yn y dyfodol a thargedu buddsoddiad.

Mae CSN yn gweithredu ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Mae'n cynnwys Grŵp Cenedlaethol, 12 grŵp Arsylwi, model rhagweld ar gyfer pob rhanbarth a gwlad, a Grŵp Cyfeirio Technegol. Ar hyn o bryd, mae grŵp Arsylwi yn gweithredu ym mhob un o'r naw rhanbarth yn Lloegr, yn ogystal ag yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae'r grwpiau arsylwi yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn ar hyn o bryd ac yn cynnwys rhanddeiliaid rhanbarthol allweddol a wahoddwyd o blith y diwydiant, Llywodraeth, byd addysg, a CSSau a Chyrff Sector eraill, y mae pob un ohonynt yn cyfrannu gwybodaeth am y diwydiant lleol a safbwyntiau ynghylch hyfforddiant, sgiliau, recriwtio, cymwysterau a pholisi. Mae'r Grŵp Cenedlaethol hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r diwydiant, Llywodraeth, byd addysg, a CSSau a Chyrff Sector eraill. Mae'r Grŵp hwn yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn, gan nodi'r sefyllfa genedlaethol sy'n sail i'r grwpiau Arsylwi i bob pwrpas.

Wrth wraidd CSN, ceir nifer o fodelau sy'n creu rhagolygon o ofynion cyflogaeth o fewn y diwydiant ar gyfer amrywiaeth o grwpiau galwedigaethol. Caiff y modelau eu cynllunio a'u rheoli gan Experian dan awdurdod ac arweiniad annibynnol y Grŵp Cyfeirio Technegol sy'n cynnwys ystadegwyr ac arbenigwyr ym maes modelu.

Mae'r modelau wedi esblygu dros amser a byddant yn parhau i wneud hynny er mwyn sicrhau eu bod yn ystyried ymchwil newydd fel y caiff ei chyhoeddi yn ogystal â thechnegau modelu newydd a gwell.

Dim ond ar ôl ymgynghori â'r Grŵp Cyfeirio Technegol y caiff newidiadau eu gwneud i'r model yn y dyfodol.

## Y modelau

Mae'r modelau yn dibynnu ar gyfuniad o waith ymchwil sylfaenol a safbwyntiau gan CSN er mwyn eu hwyluso. Defnyddir data cenedlaethol fel sail i'r tybiaethau sy'n ategu'r modelau, a gaiff eu haddasu wedyn gyda chymorth y grwpiau Arsylwi a'r Grŵp Cenedlaethol. Mae gan Gymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a phob rhanbarth yn Lloegr eu modelau eu hunain (er bod yr holl fodelau yn gydberthynol o ganlyniad i symudiadau llafur) ac, yn ogystal, ceir un model cenedlaethol sy'n gweithredu fel cyfyngiad ar y modelau unigol ac yn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o'r data mwyaf cadarn (sydd ar gael ar lefel genedlaethol).

Mae'r modelau yn rhagweld y galw am weithwyr medrus, a'u cyflenwad, ar wahân. Mae'r gwahaniaeth rhwng y galw a'r cyflenwad yn creu'r gofyniad cyflogaeth. Mae'r lefelau a ragwelir o ran cyfanswm cyflogaeth yn deillio o ddisgwyliadau ynghylch allbwn a chynhyrchiant adeiladu. Mae hyn, yn ei hanfod, yn seiliedig ar y cwestiwn 'Faint o bobl y bydd eu hangen er mwyn creu'r allbwn a ragwelir, o ystyried y tybiaethau a wnaethpwyd ynghylch cynhyrchiant?'

Gofyniad gros yw'r gofyniad recriwtio blynyddol (ARR) sy'n ystyried llifau'r gweithlu i mewn ac allan o'r diwydiant adeiladu o ganlyniad i ffactorau fel symudiadau rhwng diwydiannau, mudo, salwch ac ymddeoliad. Fodd bynnag, nid yw'r llifau hyn yn cynnwys symudiadau i'r diwydiant o hyfforddiant, er bod data cadarn ynghylch y ddarpariaeth hyfforddiant yn cael ei ddatblygu gan CITB mewn partneriaeth ag asiantaethau ariannu cyhoeddus, addysg bellach, addysg uwch a chynrychiolwyr cyflogwyr. Felly, mae'r gofyniad recriwtio blynyddol yn rhoi syniad o nifer y cyflogeion newydd y byddai angen eu recriwtio i'r diwydiant adeiladu bob blwyddyn er mwyn gwireddu'r allbwn a ragwelir.

Caiff amcangyfrifon o'r galw eu seilio ar ganlyniadau grwpiau trafod sy'n cynnwys arbenigwyr o'r diwydiant, darlun o allbwn y diwydiant adeiladu a modelau integredig sy'n ymwneud â pherfformiad economaidd cenedlaethol a rhanbarthol ehangach. Mae'r modelau yn ddynamig ac yn adlewyrchu hinsawdd economaidd gyffredinol y DU ar unrhyw adeg benodol. Er mwyn

creu'r galw am lafur, mae'r modelau yn defnyddio set o ystadegau penodol ar gyfer pob prif fath o waith er mwyn pennu'r gyflogaeth sydd ei hangen, yn ôl crefft, i greu'r lefelau a ragwelir o ran allbwn adeiladu. Mae'r cyflenwad llafur ar gyfer pob math o grefft neu broffesiwn yn seiliedig ar gyflenwad y flwyddyn flaenorol (cyfanswm y stoc cyflogaeth) wedi'i gyfuno â'r llifau i mewn ac allan o'r farchnad lafur.

Mae'r gollyngiadau (all-lifau) allweddol y bydd angen eu hystyried fel a ganlyn:


- Trosglwyddiadau i ddiwydiannau eraill
- Allfudo rhyngwladol/domestig
- Ymddeoliadau parhaol (gan gynnwys salwch parhaol)
- All-lif oherwydd salwch dros dro a dyletswyddau yn y cartref.

Mae'n debygol mai trosglwyddo i ddiwydiannau eraill fydd y prif reswm dros all-lif.

Mae llifau i mewn i'r farchnad lafur yn cynnwys y canlynol:

- Trosglwyddiadau o ddiwydiannau eraill
- Mewnfudo rhyngwladol/domestig
- Mewnlif oherwydd salwch dros dro a dyletswyddau yn y cartref.

Mae'n debygol mai trosglwyddo o ddiwydiannau eraill fydd y llif mwyaf sylweddol. Dangosir crynodeb o'r model yn y siart llif.






## ADRAN 2

# RHESTR TERMAU

**Allbwn** – cyfanswm gwerth yr holl nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir mewn economi.

**Arbenigwyr amlen adeilad** – unrhyw grefft sy'n ymwneud â chladin allanol adeilad ac eithrio bricwaith, e.e. llenfuriau.

**CMC** (cynnyrch mewnwladol crynswth) – cyfanswm gwerth yr holl nwyddau a gwasanaethau terfynol a gynhyrchir, ar y farchnad. Mesur o incwm cenedlaethol. CMC = GYC ynghyd â threthi ar gynhyrchion llai cymorthdaliadau ar gynhyrchion.

**GYC** (gwerth ychwanegol crynswth) – cyfanswm yr allbwn llai gwerth y mewnbynnau a ddefnyddir yn y broses gynhyrchu. Mae GYC yn mesur cyfraniad yr economi fel gwahaniaeth rhwng allbwn gros a mewnbynnau canolradd.

**Codau SIC** (codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol) – o Ddosbarthiad Diwydiannol Safonol y Deyrnas Unedig o Weithgareddau Economaidd, a gynhyrchir gan SYG.

**Codau SOC** (codau Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol) – o Ddosbarthiad Galwedigaethol Safonol y Deyrnas Unedig o Weithgareddau Economaidd, a gynhyrchir gan SYG.

**Cyfernodau** – er mwyn creu'r galw am lafur, mae'r model yn defnyddio set o ystadegau penodol ar gyfer pob prif fath o waith er mwyn pennu cyflogaeth, yn ôl crefft neu broffesiwn, ar sail cyflenwad y flwyddyn flaenorol. Yn ei hanfod, dyma nifer y gweithwyr sydd eu hangen ym mhob galwedigaeth neu grefft er mwyn cynhyrchu allbwn o £1m ar draws pob is-sector.

**Cyflenwad** – cyfanswm y stoc cyflogaeth mewn cyfnod, ynghyd â'r llifau i mewn ac allan o'r farchnad lafur. Fel arfer, caiff data ei gyfrifo gan ddefnyddio data LFS.

**Cynhyrchiant** – allbwn fesul cyflogai.

**Galw** – caiff y galw ei gyfrifo drwy ddefnyddio data ynghylch allbwn adeiladu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ac Adran Cyllid a Phersonél Gogledd Iwerddon (DFP), ynghyd â data ynghylch swyddi gwag o'r Arolwg Sgiliau Cyflogwyr Cenedlaethol, a gynhyrchir gan yr Adran Addysg a Sgiliau. Caiff y setiau data hyn eu trosi yn ofynion llafur yn ôl crefft drwy ddefnyddio set o gyfernodau er mwyn cynhyrchu'r ffigurau ar gyfer y galw am lafur sy'n ymwneud â lefelau allbwn a ragwelir.

**LFS** (Arolwg o'r Llafurlu) – arolwg a anfonir i sampl o gartrefi yn y DU, sy'n casglu gwybodaeth am gyflogaeth, diweithdra, llifau rhwng sectorau a hyfforddiant. Cesglir gwybodaeth o tua 53,000 o gartrefi bob chwarter (mae'r sampl yn cwmpasu dros 100,000 o bobl).

**LMI** (gwybodaeth am y farchnad lafur) – data meintiol (rhifiadol) neu ansoddol (dealltwriaeth a chanfyddiadau) ynghylch gweithwyr, cyflogwyr, cyflogau, amodau gwaith ac ati.

**Macroeconomeg** – astudio economi ar lefel genedlaethol, gan gynnwys cyfansymiau cyflogaeth, buddsoddiad, mewnforion, allforion, cynhyrchu a defnydd.

**Nec** – heb ei ddosbarthu mewn mannau eraill, fe'i defnyddir fel cyfeirnod mewn data LFS.

**SYG** (Swyddfa Ystadegau Gwladol) – sefydliad sy'n cynhyrchu ystadegau swyddogol am yr economi, poblogaeth a chymdeithas ar lefel genedlaethol a lleol.

ADRAN 3

# NODIADAU AC OLION TRAED

## Nodiadau

1 Ac eithrio Gogledd Iwerddon, darperir data am allbwn y rhanbarthau yn Lloegr, Cymru a'r Alban gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ar sail prisiau cyfredol. Felly, defnyddiwyd datchwyddiadau cenedlaethol a luniwyd gan SYG er mwyn datchwyddo prisiau i sail pris cyson 2005 er mwyn gwaredu effeithiau chwyddiant.

2 Mae cyfradd gyfartalog flynyddol y twf o ran allbwn yn gyfradd twf gyfartalog gyfansawdd, h.y. y gyfradd y byddai'r allbwn yn tyfu bob blwyddyn pe bai'n cynyddu'n raddol dros gyfnod y rhagolwg.

3 Dim ond cydrannau dethol o werth ychwanegol crynswth (GYC) a ddangosir yn y tabl hwn ac felly nid ydynt yn cyfateb i'r cyfanswm.

4 Ar gyfer archebion am waith adeiladu newydd, gwneir cymhariaeth â Phrydain Fawr yn hytrach na'r DU, gan nad oes unrhyw setiau data ynghylch archebion ar gyfer Gogledd Iwerddon.

5 Caiff niferoedd cyflogaeth eu talgrynnu i'r 10 agosaf.

6 Mae'r tablau yn cynnwys data sy'n ymwneud â phlymwyr a thrydanwyr. Fel rhan o SIC 43, mae plymwyr a thrydanwyr sy'n gweithio ym maes contractio yn rhan annatod o'r broses adeiladu. Fodd bynnag, mae SgiliauAdeiladu yn cydnabod bod SummitSkills yn gyfrifol am y galwedigaethau hyn ar draws amrywiaeth o godau SIC, gan gynnwys SIC 43.2.

7 Defnyddir lleiafswm adrodd o 50 ar gyfer y gofyniad recriwtio blynyddol (ARR). O ganlyniad, nid yw rhai rhagolygon ARR ar gyfer y rhanbarthau a gwledydd datganoledig yn cyfateb i gyfanswm gofyniad y DU.

8 Mae'r tablau Cyflogaeth ac ARR yn dangos cyfansymiau gwahanol ar gyfer SIC41-43 a SIC41-43, 71.1 a 74.9. Mae'r cyfanswm ar gyfer SIC41-43 yn cwmpasu'r 24 grŵp galwedigaethol cyntaf ar y tablau perthnasol ac nid yw'n cynnwys peirianwyr sifil, gweithwyr proffesiynol a staff technegol eraill yn y diwydiant adeiladu, penseiri a syrfewyr. Mae'r cyfanswm ar gyfer SIC41-43, 71.1 a 74.9 yn cynnwys pob galwedigaeth.

## Olion Traed ar gyfer Cyrff Sector yr Amgylchedd Adeiledig

Mae SgiliauAdeiladu yn gyfrifol am SIC 41 Codi adeiladau, SIC 42 Peirianneg sifil, SIC 43 Gweithgareddau adeiladu arbenigol a SIC 71.1 Gweithgareddau pensaernïol a pheirianneg ac ymgynghori technegol cysylltiedig.

Mae'r tabl yn crynhoi'r codau SIC (2007) a gwmpesir gan SgiliauAdeiladu:

| SgiliauAdeiladu | |
|---|---|
| **Cod SIC** | **Disgrifiad** |
| 41.1 | Datblygu prosiectau adeiladu |
| 41.2 | Codi adeiladau preswyl ac amhreswyl |
| 42.1 | Adeiladu ffyrdd a rheilffyrdd |
| 42.2 | Adeiladu prosiectau cyfleustodau |
| 42.9 | Adeiladu prosiectau peirianneg sifil eraill |
| 43.1 | Dymchwel a pharatoi safleoedd |
| 43.3 | Cwblhau gwaith adeiladu a gorffeniadau |
| 43.9 | Gweithgareddau adeiladu arbenigol eraill nec |
| 71.1* | Gweithgareddau pensaernïol a pheirianneg ac ymgynghori technegol cysylltiedig |

**Mae gan The Building Futures Group ddiddordeb ymylol yn SIC 71.1.*

## Yr olion troed sector ar gyfer y Cyrff Sector eraill sy'n ymwneud â'r Amgylchedd Adeiledig:

### SummitSkills

**Ôl troed** – plymio, gwresogi, awyru, aerdymheru, rheweiddiol ac electrodechnegol.

**Yn cynnwys** – Peirianneg gwasanaethau adeiladu.

Mae SgiliauAdeiladu yn rhannu diddordeb â SummitSkills yn SIC 43.21 Gosodiadau trydanol a SIC 43.22 Plymwaith, gwresogi ac aerdymheru. Mae SgiliauAdeiladu yn cydnabod cyfrifoldeb SummitSkills ar draws SIC 43.21 a SIC 43.22; felly caiff data sy'n ymwneud â'r sector peirianneg gwasanaethau adeiladu ei gynnwys yma, yn bennaf er mwyn cynnig darlun llawn.

### The Building Futures Group

**Ôl troed** – gwasanaethau eiddo, tai, cyfleusterau, rheoli, glanhau.

**Yn cynnwys** – rheolwyr eiddo, tai a thir, syrfewyr siartredig, amcangyfrifwyr, priswyr, archwilwyr cartrefi, asiantau tai ac arwerthwyr (eiddo a chelfi), gofalwyr, gweithwyr peiriannau a gweithwyr symudol, glanhawyr ffenestri, ysgubwyr ffordd, glanhawyr, gwaith domestig, rheolwyr cyfleusterau.

Mae gan The Building Futures Group ddiddordeb ymylol yn SIC 71.1 Gweithgareddau pensaernïol a pheirianneg ac ymgynghori technegol cysylltiedig.

### Sgiliau Ynni a Chyfleustodau

**Ôl troed** – trydan, nwy (gan gynnwys gosodwyr nwy), dŵr a rheoli gwastraff.

**Yn cynnwys** – cynhyrchu a dosbarthu trydan, trawsyrru, dosbarthu a gosod a chynnal a chadw dyfeisiau nwy, casglu, puro a dosbarthu dŵr, casglu a phrosesu dŵr gwastraff, rheoli gwastraff.



ADRAN 4

# DIFFINIADAU: MATHAU AC ENGHREIFFTIAU O WAITH ADEILADU

## Tai sector cyhoeddus – awdurdodau lleol a chymdeithasau tai, trefi newydd ac adrannau llywodraeth

Cynlluniau tai, cartrefi gofal i'r henoed a darparu ffyrdd a gwasanaethau nwy, dŵr, trydan, carthffosiaeth a draenio ar safleoedd tai.

## Tai sector preifat

Yr holl adeiladau preifat at ddefnydd preswyl, megis tai, fflatiau a fflatiau deulawr, byngalos, bythynnod a darparu gwasanaethau ar gyfer datblygiadau newydd.

## Seilwaith – cyhoeddus a phreifat

**Dŵr**
Cronfeydd dŵr, gweithfeydd puro, argaeau, gweithfeydd dŵr, gorsafoedd pwmpio, gwaith hydrolig ac ati.

**Carthffosydd**
Gwaith gwaredu carthion, gosod carthffosydd a ffosydd agored.

**Trydan**
Gwaith peirianneg sifil ac adeiladu ar gyfer ymgymeriadau trydanol megis gorsafoedd ynni, argaeau a gwaith arall ar gynlluniau trydan dŵr, ffermydd gwynt ar y tir a datgomisiynu gorsafoedd ynni niwclear.

**Nwy, cyfathrebu, trafnidiaeth awyr**
Gweithfeydd nwy, prif gyflenwad nwy a storio nwy; swyddfeydd post, swyddfeydd didoli, cyfnewidfeydd ffôn, canolfannau dargyfeirio ac ati, terfynellau awyr, llwybrau glanio, siediau awyrennau, neuaddau derbyn, gosodiadau radar.

**Rheilffyrdd**
Ffordd barhaol, twnelau, pontydd, hafnau, gorsafoedd, cytiau locomotifau ac ati, signalau a systemau rheoli eraill a thrydaneiddio rheilffyrdd ar y tir a rheilffyrdd tanddaearol.

**Harborau**
Yr holl waith a'r adeiladau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â phorthladdoedd, glanfeydd, dociau, pierau, jetïau, camlesi a dyfrffyrdd, waliau môr, argloddiau ac amddiffynfeydd dŵr.

**Ffyrdd**
Ffyrdd, palmentydd, pontydd, llwybrau troed, goleuadau, twnelau, trosffyrdd, ffensys ac ati.

## Adeiladu cyhoeddus dibreswyl[1]

**Ffatrïoedd a warysau**
Ffatrïoedd, warysau, canolfannau sgiliau cyhoeddus.

**Olew, dur, glo**
Bellach wedi'i gyfyngu i waith adfer ar gyfer cyrff gweddilliol y sector cyhoeddus.

**Ysgolion, colegau, prifysgolion**
Ysgolion a cholegau gwladol (gan gynnwys colegau technegol ac athrofeydd amaethyddol); prifysgolion gan gynnwys neuaddau preswyl, sefydliadau ymchwil ac ati.

**Iechyd**
Ysbytai gan gynnwys ysgolion meddygol, clinigau, canolfannau lles, canolfannau hyfforddi oedolion.

**Swyddfeydd**
Swyddfeydd llywodraeth leol a chanolog, gan gynnwys neuaddau tref, swyddfeydd ar gyfer yr holl gyrff cyhoeddus ac eithrio'r lluoedd arfog, pencadlys yr heddlu.

**Adloniant**
Theatrau, bwytai, pyllau nofio cyhoeddus, safleoedd carafannau mewn canolfannau gwyliau, gwaith ac adeiladau ar feysydd chwaraeon, stadia, caeau rasio ac ati y mae awdurdodau lleol neu gyrff cyhoeddus eraill yn berchen arnynt.

**Garejys**
Adeiladau ar gyfer storio, atgyweirio a chynnal a chadw cerbydau ffordd, gweithdai trafnidiaeth, depos bysiau, depos cludo nwyddau ffyrdd a meysydd parcio.

**Siopau**
Datblygiadau siopa trefol y mae Awdurdod Lleol wedi rhoi'r contract ar eu cyfer.

**Amaethyddiaeth**
Adeiladau a gwaith ar sefydliadau garddwriaethol a ariennir yn gyhoeddus; draenio corstiroedd a draenio amaethyddol, clinigau milfeddygol.

**Amrywiol**
Yr holl waith nad oes modd ei gynnwys yn amlwg dan unrhyw bennawd arall, megis gorsafoedd tân, gorsafoedd heddlu, carchardai, penydfeydd, cartrefi remand, gwaith amddiffyn sifil, gwaith ar gyfer Awdurdod Ynni Atomig y DU, depos cynghorau, amgueddfeydd, llyfrgelloedd.

## Gwaith diwydiannol preifat

Ffatrïoedd, warysau, depos cyfanwerthu, yr holl waith a'r adeiladau eraill at ddibenion cynhyrchu neu brosesu diwydiannol, purfeydd, pibellau a therfynellau olew; platfformau cynhyrchu olew â choesau concrid sefydlog (nid llwyfannau); gwaith dur preifat; yr holl waith sydd ei angen i adeiladu pyllau glo newydd megis agor siafftiau, twnelu ac ati.

## Gwaith masnachol preifat[1]

**Ysgolion a phrifysgolion**
Ysgolion a cholegau yn y sector preifat, sy'n cael eu hariannu'n gyfan gwbl gan gronfeydd preifat.

**Iechyd**
Ysbytai, cartrefi nyrsio a chlinigau preifat.

**Swyddfeydd**
Adeiladau swyddfa, banciau.

**Adloniant**
Theatrau, neuaddau cyngerdd, sinemâu, gwestai, tafarndai, bwytai, caffis, gwersylloedd gwyliau, pyllau nofio, gwaith ac adeiladau ar feysydd chwaraeon, stadia a safleoedd chwaraeon neu hamddena eraill, hostelau ieuenctid.

**Garejys**
Garejys atgyweirio, gorsafoedd petrol, depos bysiau, depos cludo nwyddau ac unrhyw waith neu adeiladau eraill ar gyfer storio, atgyweirio neu gynnal a chadw cerbydau ffordd, meysydd parcio.

**Siopau**
Yr holl adeiladau ar gyfer dosbarthu at ddibenion manwerthu megis siopau, siopau adrannol, marchnadoedd manwerthu, ystafelloedd arddangos ac ati.

**Amaethyddiaeth**
Yr holl adeiladau a gwaith ar ffermydd, sefydliadau garddwriaethol.

**Amrywiol**
Yr holl waith nad oes modd ei gynnwys yn amlwg dan unrhyw bennawd arall, e.e. arddangosfeydd, safleoedd carafannau, eglwysi, neuaddau eglwys.

## Gwaith newydd

**Tai newydd**
Adeiladu tai, fflatiau, byngalos newydd yn unig.

**Pob math arall o waith**
Yr holl waith adeiladu newydd a'r holl waith y mae modd cyfeirio ato fel gwaith gwella, adnewyddu neu ailwampio ac sy'n ychwanegu gwerth at yr eiddo.[2]

## Atgyweirio a chynnal a chadw

**Tai**
Unrhyw waith i drawsnewid neu ddarparu estyniad i unrhyw annedd sy'n bodoli eisoes, a'r holl waith arall megis gwaith gwella, adnewyddu, ailwampio, gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio ac unrhyw fath arall o wariant ar waith atgyweirio neu gynnal a chadw.

**Pob sector arall:**
Gwaith atgyweirio a chynnal a chadw o bob math, gan gynnwys gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio a gwaith cynnal a chadw cytundebol.[3]

1 Pan ddyfarnir contractau er mwyn adeiladu neu wella adeiladau amhreswyl a ddefnyddir er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus, megis ysbytai, gan ddeiliaid contractau o'r sector preifat, a ddyfarnwyd dan Fenter Cyllid Preifat, caiff y gwaith ei ddosbarthu fel gwaith 'masnachol preifat'.

2 Efallai na fydd contractwyr sy'n adrodd am waith bob amser yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng gwaith gwella neu adnewyddu a gwaith atgyweirio a chynnal a chadw yn y sectorau amhreswyl.

3 Ac eithrio lle y nodir, caiff cynlluniau datblygu cymysg eu dosbarthu yn ôl y sector sy'n darparu'r mwyafrif o'r cyllid.

# GRWPIAU GALWEDIGAETHOL

**Grŵp galwedigaethol**
Disgrifiad, cyfeirnod SOC (2010).

### Uwch reolwyr, rheolwyr gweithredol a rheolwyr prosesau busnes

| | |
|---|---|
| Prif weithredwyr ac uwch swyddogion | 1115 |
| Rheolwyr a chyfarwyddwyr ariannol | 1131 |
| Cyfarwyddwyr marchnata a gwerthu | 1132 |
| Rheolwyr a chyfarwyddwyr prynu | 1133 |
| Rheolwyr a chyfarwyddwyr adnoddau dynol | 1135 |
| Rheolwyr eiddo, tai a thir | 1251 |
| Cyfarwyddwyr technoleg gwybodaeth a chyfathrebu | 1136 |
| Rheolwyr ymchwil a datblygu | 2150 |
| Rheolwyr a chyfarwyddwyr storio a storfeydd | 1162 |
| Rheolwyr a pherchnogion mewn gwasanaethau eraill nec* | 1259 |
| Rheolwyr a chyfarwyddwyr swyddogaethol nec* | 1139 |
| Rheolwyr TG arbenigol | 2133 |
| Rheolwyr prosiectau a rhaglenni TG | 2134 |
| Rheolwyr cyfrifon ariannol | 3538 |
| Rheolwyr cyfrifon gwerthu a datblygu busnes | 3545 |

### Rheolwyr prosiectau adeiladu

| | |
|---|---|
| Rheolwyr prosiectau adeiladu a gweithwyr proffesiynol cysylltiedig | 2436 |

### Rheolwyr prosesau adeiladu eraill

| | |
|---|---|
| Rheolwyr a chyfarwyddwyr cynhyrchu ym maes gweithgynhyrchu | 1121 |
| Rheolwyr a chyfarwyddwyr cynhyrchu ym maes adeiladu | 1122 |
| Rheolwyr a chyfarwyddwyr trafnidiaeth a dosbarthu | 1161 |
| Rheolwyr gwasanaethau gwaredu gwastraff ac amgylcheddol | 1255 |
| Swyddogion iechyd a diogelwch | 3567 |
| Gweithwyr proffesiynol cyswllt cadwraeth a diogelu'r amgylchedd | 3550 |

### Staff proffesiynol, technegol, TG a staff swyddfa eraill nad ydynt yn staff adeiladu (heb gynnwys rheolwyr)

| | |
|---|---|
| Technegwyr gweithrediadau TG | 3131 |
| Technegwyr cymorth defnyddwyr TG | 3132 |
| Dadansoddwyr a chynghorwyr cyllid a buddsoddi | 3534 |
| Arbenigwyr treth | 3535 |
| Technegwyr cyfrifyddu ac ariannol | 3537 |
| Hyfforddwyr diwydiannol a galwedigaethol | 3563 |
| Gweithwyr proffesiynol busnes a chyswllt cysylltiedig nec* | 3539 |
| Gweithwyr proffesiynol cyswllt cyfreithiol | 3520 |
| Archwilwyr safonau a rheoliadau | 3565 |
| Rhaglenwyr a gweithwyr datblygu meddalwedd proffesiynol | 2136 |
| Gweithwyr proffesiynol technoleg gwybodaeth a chyfathrebu nec* | 2139 |
| Asiantau tai ac arwerthwyr | 3544 |
| Cyfreithwyr | 2413 |
| Gweithwyr cyfreithiol proffesiynol nec* | 2419 |
| Cyfrifwyr siartredig ac ardystiedig | 2421 |
| Gweithwyr busnes a rheoli prosiectau ariannol proffesiynol | 2424 |
| Ymgynghorwyr rheoli a dadansoddwyr busnes | 2423 |
| Derbynyddion | 4216 |
| Teipyddion a galwedigaethau bysellfwrdd cysylltiedig | 4217 |
| Swyddogion gweithredol gwerthiannau busnes | 3542 |
| Clercod cyfrifon, rheolwyr y gyflogres a chlercod cyflogau | 4122 |
| Clercod a chynorthwywyr cofnodion | 4131 |
| Clercod a chynorthwywyr rheoli stoc | 4133 |
| Teleffonyddion | 7213 |
| Gweithredwyr cyfathrebu | 7214 |
| Cynorthwywyr personol ac ysgrifenyddion eraill | 4215 |
| Cynorthwywyr gwerthu a manwerthu | 7111 |
| Swyddogion gwerthu dros y ffôn | 7113 |
| Prynwyr a swyddogion caffael | 3541 |
| Swyddogion adnoddau dynol a chysylltiadau diwydiannol | 3562 |

| | |
|---|---|
| Rheolwyr credyd | 4121 |
| Ysgrifenyddion cwmni | 4214 |
| Galwedigaethau sy'n gysylltiedig â gwerthu nec* | 7129 |
| Galwedigaethau canolfannau galwadau a chanolfannau cyswllt | 7211 |
| Galwedigaethau gwasanaeth cwsmeriaid nec* | 7219 |
| Galwedigaethau gweinyddol elfennol nec* | 9219 |
| Gwyddonwyr cemegol | 2111 |
| Gwyddonwyr biolegol a biocemegwyr | 2112 |
| Gwyddonwyr ffisegol | 2113 |
| Technegwyr labordy | 3111 |
| Dylunwyr graffeg | 3421 |
| Gweithwyr iechyd yr amgylchedd proffesiynol | 2463 |
| Dadansoddwyr busnes TG, penseiri a dylunwyr systemau | 2135 |
| Gweithwyr cadwraeth proffesiynol | 2141 |
| Gweithwyr amgylcheddol proffesiynol | 2142 |
| Actiwarïaid, economegwyr ac ystadegwyr | 2425 |
| Gweithwyr busnes a gweithwyr ymchwil cysylltiedig proffesiynol | 2426 |
| Swyddogion cyllid | 4124 |
| Galwedigaethau gweinyddol ariannol nec* | 4129 |
| Galwedigaethau gweinyddol adnoddau dynol | 4138 |
| Gweinyddwyr gwerthu | 4151 |
| Galwedigaethau gweinyddol eraill nec* | 4159 |
| Goruchwylwyr swyddfa | 4162 |
| Goruchwylwyr gwerthu | 7130 |
| Rheolwyr a goruchwylwyr gwasanaeth cwsmeriaid | 7220 |
| Rheolwyr swyddfa | 4161 |

## Goruchwylwyr crefftau adeiladu

| | |
|---|---|
| Goruchwylwyr crefftau metel, trydanol ac electronig medrus | 5250 |
| Goruchwylwyr adeiladu a chrefftau adeiladu | 5330 |

## Crefftau pren a dodrefnwyr mewnol

| | |
|---|---|
| Seiri coed ac asiedyddion | 5315 |
| Gweithredwyr peiriannau papur a phren | 8121 |
| Gwneuthurwyr dodrefn a seiri coed crefft eraill | 5442 |
| Adeiladu a chrefftau adeiladu nec* (25%) | 5319 |

## Bricwyr

| | |
|---|---|
| Bricwyr a seiri maen | 5312 |

## Arbenigwyr amlen adeilad

| | |
|---|---|
| Adeiladu a chrefftau adeiladu nec* (50%) | 5319 |

## Peintwyr ac addurnwyr

| | |
|---|---|
| Peintwyr ac addurnwyr | 5323 |
| Adeiladu a chrefftau adeiladu nec* (5%) | 5319 |

## Plastrwyr

| | |
|---|---|
| Plastrwyr | 5321 |

## Towyr

| | |
|---|---|
| Towyr a theilswyr to | 5313 |

## Gosodwyr llawr

| | |
|---|---|
| Llorwyr a theilswyr waliau | 5322 |

## Gwydrwyr

| | |
|---|---|
| Gwydrwyr, gwneuthurwyr a gosodwyr ffenestri | 5316 |
| Adeiladu a chrefftau adeiladu nec* (5%) | 5319 |

## Gweithredwyr adeiladu arbenigol nad ydynt wedi'u dosbarthu mewn mannau eraill (nec*)

| | |
|---|---|
| Gweithredwyr adeiladu nec* (100%) | 8149 |
| Adeiladu a chrefftau adeiladu nec* (5%) | 5319 |
| Galwedigaethau prosesau glanhau diwydiannol | 9132 |
| Crefftau medrus eraill nec* | 5449 |

## Sgaffaldwyr

| | |
|---|---|
| Sgaffaldwyr, gosodwyr llwyfannau a rigwyr | 8141 |

## Gweithredwyr peiriannau

| | |
|---|---|
| Gyrwyr craeniau | 8221 |
| Gweithredwyr peiriannau nec* | 8129 |
| Gyrwyr wagenni fforch godi | 8222 |
| Gyrwyr a gweithredwyr peiriannau symudol nec* | 8229 |

## Mecanyddion/gosodwyr cyfarpar

| | |
|---|---|
| Gosodwyr cynnal a chadw a chynhyrchu gwaith metel | 5223 |
| Gwneuthurwyr ac atgyweirwyr offer manwl | 5224 |
| Technegwyr, mecanyddion a thrydanwyr cerbydau | 5231 |
| Galwedigaethau peiriannau prosesau elfennol nec* | 9139 |
| Gwneuthurwyr offer, gosodwyr offer a marcwyr | 5222 |
| Gweithwyr adeiladu a ac atgyweirio corff cerbydau | 5232 |

## Gosodwyr dur/strwythurol

| | |
|---|---|
| Gosodwyr dur | 5311 |
| Crefftau weldio | 5215 |
| Gweithwyr platiau metel a rhybedwyr | 5214 |
| Adeiladu a chrefftau adeiladu nec* (5%) | 5319 |
| Gofaint a gweithwyr gefail | 5211 |
| Gosodwyr peiriannu metel a hogwyr | 5221 |

## Llafurwyr nec*

| | |
|---|---|
| Galwedigaethau adeiladu elfennol (100%) | 9120 |

## Crefftau trydanol a gwaith gosod

| | |
|---|---|
| Trydanwyr a gosodwyr trydanol | 5241 |
| Trydanol a chrefftau trydanol nec* | 5249 |
| Peirianwyr telathrebu | 5242 |

**(nec) – heb eu dosbarthu mewn man arall*

## Crefftau plymio a gwresogi, awyru ac aerdymheru

| | |
|---|---|
| Plymwyr a pheirianwyr gwresogi ac awyru | 5314 |
| Gosodwyr pibellau | 5216 |
| Adeiladu a chrefftau adeiladu nec* (5%) | 5319 |
| Peirianwyr aerdymheru a rheweiddiol | 5225 |

## Logisteg

| | |
|---|---|
| Gyrwyr cerbydau nwyddau trwm | 8211 |
| Gyrwyr faniau | 8212 |
| Galwedigaethau storio elfennol | 9260 |
| Prynwyr a swyddogion prynu (50%) | 3541 |
| Clercod a chynorthwywyr trafnidiaeth a dosbarthu | 4134 |

## Gweithredwyr peirianneg sifil nad ydynt wedi'u dosbarth mewn mannau eraill (nec*)

| | |
|---|---|
| Gweithredwyr adeiladu ffyrdd | 8142 |
| Gweithredwyr adeiladu a chynnal a chadw rheilffyrdd | 8143 |
| Gweithwyr chwarela a gweithredwyr cysylltiedig | 8123 |

## Gweithredwyr nad ydynt yn ymwneud ag adeiladu

| | |
|---|---|
| Gweithredwyr prosesau creu a thrin metel | 8117 |
| Gweithredwyr proses nec* | 8119 |
| Gweithredwyr peiriannau gwaith metel | 8125 |
| Gweithredwyr peiriannau dŵr a charthion | 8126 |
| Cyfosodwyr (cerbydau a nwyddau metel) | 8132 |
| Archwilwyr a swyddogion profi cyson | 8133 |
| Cyfosodwyr a gweithredwyr cyson nec* | 8139 |
| Galwedigaethau diogelwch elfennol nec* | 9249 |
| Glanhawyr a gweithwyr domestig* | 9233 |
| Glanhawyr stryd | 9232 |
| Garddwyr a thirlunwyr | 5113 |
| Gofalwyr | 6232 |
| Swyddogion diogelwch a galwedigaethau cysylltiedig | 9241 |
| Gweithwyr gwasanaethau diogelwch cyswllt proffesiynol nec* | 3319 |

## Peirianwyr sifil

| | |
|---|---|
| Peirianwyr sifil | 2121 |

## Gweithwyr adeiladu a staff technegol proffesiynol eraill

| | |
|---|---|
| Peirianwyr mecanyddol | 2122 |
| Peirianwyr trydanol | 2123 |
| Peirianwyr dylunio a datblygu | 2126 |
| Peirianwyr cynhyrchu a phroses | 2127 |
| Peirianwyr rheoli ansawdd a chynllunio | 2461 |
| Gweithwyr peirianneg proffesiynol nec* | 2129 |
| Technegwyr trydanol ac electroneg | 3112 |
| Technegwyr peirianneg | 3113 |
| Technegwyr adeiladu a pheirianneg sifil | 3114 |
| Technegwyr gwyddoniaeth, peirianneg a chynhyrchu nec* | 3119 |
| Technegwyr pensaernïol a thechnegwyr cynllunio tref* | 3121 |
| Drafftsmyn | 3122 |
| Technegwyr sicrhau ansawdd | 3115 |
| Swyddogion cynllunio tref | 2432 |
| Peirianwyr electroneg | 2124 |
| Technolegwyr pensaernïol siartredig | 2435 |
| Amcangyfrifwyr, priswyr ac aseswyr | 3531 |
| Technegwyr cynllunio, proses a chynhyrchu | 3116 |

## Penseiri

| | |
|---|---|
| Penseiri | 2431 |

## Syrfewyr

| | |
|---|---|
| Syrfewyr siartredig | 2433 |
| Syrfewyr meintiau | 2434 |

**(nec) – heb eu dosbarthu mewn man arall*



ADRAN 6

# GWEFAN A MANYLION CYSWLLT CSN

## Gwefan CSN

**citb.co.uk/csn**

Mae gwefan CSN yn borth cyhoeddus i bobl sydd am weld yr amrywiaeth o adroddiadau gwybodaeth am y farchnad lafur (LMI) a'r deunydd ymchwil a gynhyrchir yn rheolaidd gan CSN.

Mae modd lawrlwytho'r prif adroddiad ar gyfer y DU, ynghyd â'r 12 adroddiad LMI (un ar gyfer Cymru, Gogledd Iwerddon, yr Alban a phob un o'r naw rhanbarth yn Lloegr) o'r wefan, ac mae adroddiadau ymchwil CITB hefyd ar gael i bawb ar wefan CITB. Mae gallu cyrchu'r amrywiaeth hon o wybodaeth am y farchnad lafur a dealltwriaeth o dueddiadau yn galluogi'r diwydiant, Llywodraeth, asiantaethau rhanbarthol a rhanddeiliaid allweddol i wneud y canlynol:

- Amlygu'r sgiliau cysylltiedig a phenodol y bydd eu hangen fesul blwyddyn
- Nodi'r sectorau sy'n debygol o weld y twf mwyaf mewn allbwn ym mhob rhanbarth a gwlad ddatganoledig
- Olrhain yr economi facro
- Deall sut mae digwyddiadau economaidd yn effeithio ar berfformiad economaidd rhanbarthau a gwledydd datganoledig
- Amlygu tueddiadau yn y diwydiant megis newidiadau cenedlaethol a rhanbarthol o ran galw
- Blaengynllunio a mynd i'r afael ag anghenion sgiliau gweithlu sydd wedi bod yn symudol yn draddodiadol
- Deall lefelau'r newydd-ddyfodiaid cymwys sydd eu hangen ar gyfer y gweithlu.

Mae'r wefan hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- Sut mae CSN yn gweithio
- Modelau CSN
- Sut y gellir defnyddio'r model i ystyried sefyllfaoedd
- Gwybodaeth gyswllt tîm CSN
- Mynediad at waith ymchwil cysylltiedig CITB
- Manylion ar gyfer y sawl sydd â diddordeb mewn dod yn aelod o'r rhwydwaith.

Tra bod ardal gyhoeddus gwefan CSN yn cynnig porth i adroddiadau ymchwil ac LMI wedi'u cwblhau, mae bod yn aelod o CSN yn cynnig manteision pellach.

Fel aelod o CSN, byddwch yn cael eich cysylltu ag un o'r grwpiau Arsylwi sy'n chwarae rôl hanfodol wrth roi adborth am arsylwadau, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd ym mhob rhanbarth a gwlad yn y DU. Defnyddir yr adborth hwn i fireinio'r tybiaethau a'r data sy'n cael eu cynnwys yn y rhaglen rhagweld, megis:

- Manylion prosiectau penodol
- Y galw o fewn mathau amrywiol o waith neu sectorau cyflenwad llafur
- Cyflenwad llafur
- Mewnlifau ac all-lifau ar draws y rhanbarthau a'r gwledydd datganoledig.

Felly, mae modd i aelodau CSN wneud y canlynol:

- Gweld rhagolygon yn gynnar
- Cael cyfle i ddylanwadu ar y data a chyfrannu ato
- Gofyn am sefyllfaoedd a allai ateb cwestiynau megis 'Beth fyddai'n digwydd pe bai...' gan ddefnyddio'r model.

Drwy safle'r aelodau ar wefan CSN, mae modd i aelodau wneud y canlynol:

- Cael gafael ar ddeunydd cysylltiedig grwpiau Arsylwi megis dyddiadau cyfarfodydd, agendâu, cyflwyniadau a nodiadau
- Lawrlwytho deunydd ymchwil ychwanegol
- Gwneud sylwadau/rhoi adborth i dîm CSN.

Wrth i'r grwpiau Arsylwi amlygu'r materion gwirioneddol y mae'r diwydiant yn eu hwynebu yn y DU, gallwn gynllunio ein hymateb i anghenion sgiliau mewn ffordd fwy effeithlon ac effeithiol. Os hoffech gyfrannu'ch sylwadau, eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r diwydiant i'r broses hon, a dod yn aelod o CSN, byddem yn falch o glywed gennych.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth am wefan CSN, os oes gennych unrhyw ymholiadau am waith CSN, neu os hoffech gofrestru'ch diddordeb mewn bod yn aelod o CSN, cysylltwch â ni yn: **csn@citb.co.uk**

I gael rhagor o wybodaeth am y
Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu, cysylltwch â:
Adam Evans
Dadansoddwr Ymchwil
Polisi ac Ymchwilio
0300 456 7226
research.team@citb.co.uk

citb.co.uk

Mewn cydweithrediad ag

Cofrestrir CITB yn elusen yng Nghymru a Lloegr (Rhif Cofrestru 264289) ac yn yr Alban (Rhif Cofrestru SC044875).
Mae CITB yn bartner o fewn SgiliauAdeiladu, sef y Cygnor Sgiliau Sector ar gyfer y diwydiant adeiladu.